



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Rhif: WG46897**

Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Cynllun Trwyddedu Mandadol ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru

Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ac Atodlen 3 iddi

Ionawr 2024

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

**OGL** © Hawlfraint y Goron 2024 ISBN digidol 978-1-83577-542-4

## **Trosolwg**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar egwyddorion sefydlu cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer triniaethau arbennig fel y'i nodwyd yn Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 rhwng 25 Ionawr a 19 Ebrill 2023. Y bwriad yw cychwyn Rhan 4 o'r Ddeddf a rhoi'r cynllun trwyddedu hwn ar waith drwy wneud rheoliadau amrywiol. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a chamau nesaf Llywodraeth Cymru. Mae Atodiad 2 yn cynnwys testun yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ac fe'i cyhoeddir ar wahân.

## **Camau i'w Cymryd**

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## **Manylion cyswllt**

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Blaenoriaethau Diogelu Iechyd y Cyhoedd  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [TriniaethauArbennig@llyw.cymru](mailto:TriniaethauArbennig@llyw.cymru)

## **Copïau ychwanegol**

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: <https://www.llyw.cymru/trwyddedu-gorfodol-ar-gyfer-triniaethau-arbennig-yng-nghymru>

## Cynnwys

<a href="#">Cyflwyniad</a>	7
<a href="#">Trosolwg o'r ymatebion a gafwyd</a>	8
<a href="#">Materion cyffredinol</a>	11
<a href="#">Manylion yr ymatebion fesul cwestiwn</a>	15
<a href="#">Cwestiwn 1:</a> Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i fandadu ffurf a chynnwys trwydded triniaethau arbennig a thystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd o fewn y rheoliadau? A oes unrhyw beth arall y dylid ei gynnwys yn ffurf y dogfennau hyn?	15
<a href="#">Cwestiwn 2:</a> Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i wneud rheoliadau ynghylch darpariaeth bellach (fel y nodir ym mharagraff 4.13)?	16
<a href="#">Cwestiwn 3:</a> Ydych chi'n cytuno bod naw mis yn gyfnod trosiannol digonol? Os ddim, pa hyd fyddai'n briodol?	17
<a href="#">Cwestiwn 4:</a> Ydych chi'n cytuno bod yr isafswm oedran a gynigir ar gyfer ymgeiswyr am drwyddedau triniaeth arbennig yn briodol?	19
<a href="#">Cwestiwn 5:</a> Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf trwyddedu a gynigir ar gyfer trwyddedau triniaeth arbennig a'r dogfennau ategol a restrwyd? A ddylai ymgeiswyr orfod cyflwyno unrhyw ddogfennau eraill?	19
<a href="#">Cwestiwn 6:</a> Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai ymgeiswyr roi tystiolaeth o'u cymhwysedd yn y driniaeth/triniaethau arbennig y maent yn dymuno ei/eu rhoi? Os ydych chi'n cytuno, sut y dylid dangos hynny, a pha dystiolaeth ddogfennol y dylid ei chynhyrchu?	21
<a href="#">Cwestiwn 7:</a> Ydych chi'n cytuno bod y disgrifiadau cyfredol o droseddau perthnasol yn ddigonol? Os nad ydych chi, pam?	22
<a href="#">Cwestiwn 8:</a> Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig hwn, sef y dylid gwneud rheoliadau i gyfyngu ar esemptiadau i aelodau'r cyrff proffesiynol a restrir yn adran 60?	24
<a href="#">Cwestiwn 9:</a> Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig hwn, sef y dylid gwneud rheoliadau o dan adran 69 i weithredu esemptiadau ar fangreoedd lle bydd aelodau esempt o'r cyrff proffesiynol hyn yn ymarfer?	26
<a href="#">Cwestiwn 10:</a> A yw'r egwyddorion hyn i esemptio unigolion a mangreoedd yn gwarchod iechyd a diogelwch y cleient i raddau digonol?	28
<a href="#">Cwestiwn 11:</a> Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig hwn, sef y dylai'r proffesiynau a enwir sydd ar gofrestr statudol yr HCPC, sef ciropodyddion/podiatryddion; ffisiotherapyddion; prosthetyddion/orthotyddion fod yn esempt? A oes proffesiynau eraill ar y gofrestr hon a ddylai fod yn esempt?	29
<a href="#">Cwestiwn 12:</a> Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig na ddylai aelodau o gofrestrau gwirfoddol wedi'u hachredu gan y PSA fod yn esempt?	31

<a href="#">Cwestiwn 13</a> : Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch yr amodau trwyddedu mandadol enghreifftiol ar gyfer yr holl driniaethau arbennig, fel y'u nodir yn Atodiad CH1?	32
<a href="#">Cwestiwn 14</a> : Ydych chi'n cytuno bod yr amodau trwyddedu mandadol penodol yn Atodiad CH1 yn gymesur â'r risgiau a gyflwynir gan bob math o driniaeth arbennig?	33
<a href="#">Cwestiwn 15</a> : Ydych chi'n cytuno bod creu trwydded hyfforddai yn ffordd gymesur o ymdrin â hyfforddeion ar gyrsiau rheoleiddiedig a phrentisiaid sy'n dilyn cynlluniau prentisiaeth rheoleiddiedig ac anrheoleiddiedig? Os nad ydych chi'n cytuno, sut y dylid ymdrin â hyn?	33
<a href="#">Cwestiwn 16</a> : Ydych chi'n cytuno y dylid pennu 18 oed fel yr isafswm oedran i ymarferydd roi unrhyw un o'r triniaethau arbennig?	35
<a href="#">Cwestiwn 17</a> : Ydych chi'n cytuno y dylid pennu 18 oed fel yr isafswm oedran i gleient gael unrhyw un o'r triniaethau arbennig (ar wahân i'r eithriadau arfaethedig a restrwyd)?	36
<a href="#">Cwestiwn 18</a> : Ydych chi'n cytuno bod yr hyn a amlinellwyd o ran cydsyniad a phresenoldeb rhiant/gwarcheidwad ar gyfer triniaethau nad ydynt wedi'u gwahardd i rai dan 18 oed yn fesurau diogelu digonol?	37
<a href="#">Cwestiwn 19</a> : Ydych chi'n cytuno bod 16 yn oedran priodol i rywun gael twll yn yr ael, y wefus, y trwyn neu gartilag y glust heb gydsyniad rhiant/gwarcheidwad?	38
<a href="#">Cwestiwn 20</a> : A ddylid caniatáu tyllau ar unrhyw ran arall o'r wyneb o'r adeg pan fydd rhywun yn 16 oed? Os felly, pam?	39
<a href="#">Cwestiwn 21</a> : Ydych chi'n cytuno bod gwahardd tatŵio pelen y llygad yn yr amodau trwyddedu tatŵio yn ddigonol i atal ymarferwyr trwyddedig rhag rhoi'r driniaeth honno?	40
<a href="#">Cwestiwn 22</a> : A yw'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol mewn amodau trwyddedu fod ymarferwyr yn trafod effaith triniaethau wyneb a thriniaethau gweladwy eraill â chleientiaid ac yn cofnodi'r drafodaeth yn ddigonol i fynd i'r afael â'r pryderon?	41
<a href="#">Cwestiwn 23</a> : Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad a gynigir ar gyfer 'gwrthrych' fel y bo'n berthnasol i dyllu'r corff?	42
<a href="#">Cwestiwn 24</a> : Ydych chi'n cytuno bod gwahardd y defnydd o gyllell llawfeddyg neu offeryn llafnog tebyg yn amodau trwyddedu tyllu'r corff yn ddigonol i atal addasiadau i'r corff sydd y tu hwnt i driniaeth tyllu'r corff?	43
<a href="#">Cwestiwn 25</a> : Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf cymeradwyo a gynigir ar gyfer ceisiadau cymeradwyo mangre/cerbyd a'r dogfennau ategol a restrir? A ddylai ymgeiswyr orfod cyflwyno unrhyw ddogfennau eraill?	44
<a href="#">Cwestiwn 26</a> : Ydych chi'n cytuno na ddylai deiliaid trwyddedau triniaeth arbennig hyfforddai gael gwneud cais am dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd yn eu hawl ei hunain, na chael eu henwebu fel y sawl sy'n gyfrifol am fangre ar ffurflen gais?	46

<a href="#">Cwestiwn 27</a> : Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ynghylch apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod cais am gymeradwyaeth mangre a cherbyd, fel y nodir ym mharagraff 11.19?	47
<a href="#">Cwestiwn 28</a> : Ydych chi'n cytuno y dylai'r dystysgrif cymeradwyo hefyd gynnwys enw'r sawl sy'n gyfrifol ac uchafswm y gweithfannau yn y fangre honno/cerbyd hwnnw?	48
<a href="#">Cwestiwn 29</a> : Oes gennych chi unrhyw sylwadau am yr amodau mandadol enghreifftiol ar gyfer cymeradwyo mangreoedd/cerbydau a nodir yn Atodiad Ch2?	49
<a href="#">Cwestiwn 30</a> : Cynigiwn ein bod yn gwneud rheoliadau o dan adran 70 o'r Ddeddf yn gysylltiedig â'r broses amrywio ac adnewyddu ar gyfer tystysgrifau cymeradwyo mangreoedd i'w gwneud yn gyson â'r broses amrywio ac adnewyddu ar gyfer trwyddedau triniaeth arbennig. Ydych chi'n cytuno?	50
<a href="#">Cwestiwn 31</a> : A ddylid gosod yr un amodau cymeradwyo mandadol wrth gymeradwyo mangreoedd a cherbydau dros dro â'r amodau a osodir ar gyfer pob mangre/cerbyd? Os ddim, pa amodau cymeradwyo mandadol penodol (os o gwbl) a ddylai fod yn berthnasol wrth gymeradwyo mangreoedd a cherbydau dros dro?	50
<a href="#">Cwestiwn 32</a> : Ydych chi'n cytuno bod mynnu'r un meini prawf trwyddedu ar gyfer trwydded ymarferydd dros dro ag ar gyfer trwydded tair blynedd yn gymesur?	51
<a href="#">Cwestiwn 33</a> : Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n gymesur i drefnydd digwyddiadau sy'n gwneud cais am dystysgrif cymeradwyo mangre dros dro fodloni'r un meini prawf cymeradwyo ag ar gyfer tystysgrif cymeradwyo mangre tair blynedd?	52
<a href="#">Cwestiwn 34</a> : Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn rhaid i bob mangre/cerbyd sy'n gysylltiedig â digwyddiad/arddangosfa dros dro gael ei chymeradwyo/gymeradwyo gan yr awdurdod lleol? Os ddim, pam ddim?	53
<a href="#">Cwestiwn 35</a> : A ddylid gosod amodau cymeradwyo mandadol ar gyfer pob mangre/cerbyd sy'n gysylltiedig â digwyddiadau/arddangosfeydd dros dro?	54
<a href="#">Cwestiwn 36</a> : Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys gwybodaeth bellach o fewn tystysgrif cymeradwyo dros dro (fel yr awgrymwyd ym mharagraff 13.12)? Pa wybodaeth arall a ddylai fod yn ofynnol (os o gwbl)?	55
<a href="#">Cwestiwn 37</a> : Ydych chi'n cytuno y dylid pennu'r ffioedd ymgeisio am drwydded yn y modd a amlinellir ym mharagraffau 15.3 ac 15.4?	55
<a href="#">Cwestiwn 38</a> : Ydych chi'n cytuno y dylid pennu'r ffioedd ymgeisio am gymeradwyaeth mangre/cerbyd yn y modd a amlinellir ym mharagraffau 15.5 ac 15.6?	56
<a href="#">Cwestiwn 39</a> : Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheoliadau gynnwys darpariaeth ynghylch sut y dylai awdurdodau lleol bennu swm y ffi a godir ar ddeiliad trwydded neu gymeradwyaeth mangre/cerbyd o dan adran 76 yn y modd a amlinellir ym mharagraffau 15.7 - 15.9?	57
<a href="#">Cwestiwn 40</a> : Ydych chi'n cytuno â'n cynnig ynghylch adennill ffioedd adran 76 nas talwyd yn y modd a amlinellir ym mharagraff 15.10?	58

<p><a href="#">Cwestiwn 41</a>: Hoffem wybod eich barn ynghylch yr effaith y gallai'r cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg.</p> <p>Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?</p>	59
<p><a href="#">Cwestiwn 42</a>: Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid trefnu neu newid y cynllun trwyddedu mandadol a gynigir ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru er mwyn sicrhau</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal</li> <li>• unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</li> </ul>	60
<p><a href="#">Cwestiwn 43</a>: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Defnyddiwch y gofod isod os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u trafod yn benodol.</p>	61
<p><a href="#">Y camau nesaf ar ôl yr ymgynghoriad hwn</a></p>	63
<p><a href="#">Atodiad 1</a> – Rhestr Dosbarthu'r Ymgynghoriad</p>	64

## CYFLWYNIAD

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i sefydlu'r cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru ac asesiadau effaith cysylltiedig rhwng 25 Ionawr a 19 Ebrill 2023. Diffinnir pedair triniaeth arbennig yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 fel aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis, a thatwio.

Cyflwynodd y ddogfen ymgynghori gynigion ynglŷn â sut y gellid sefydlu a gweithredu'r cynllun trwyddedu mandadol yn ein barn ni. Roedd y ddogfen yn cwmpasu'r cynllun arfaethedig cyfan, gan gynnwys:

- y broses ymgeisio ar gyfer y drwydded triniaeth arbennig am gyfnod o dair blynedd ac am gyfnod nad yw'n hwy na saith diwrnod (dros dro) a'r dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd, gan gynnwys
- y meini prawf gofynnol i wneud cais am drwydded neu dystysgrif gymeradwyo
- y ddogfennaeth a'r ffi y mae angen eu cyflwyno ar y cyd â'r cais
- prosesau cymeradwyo, gwrthod ac apelio
- esemptiadau trwydded triniaeth arbennig a thrwydded gymeradwyo mangre/cerbyd
- yr amodau y mae'n ofynnol i ymarferwyr trwyddedig a'r person sy'n gyfrifol am y fangre/cerbyd eu dilyn tra bydd y drwydded a'r gymeradwyaeth yn weithredol
- ystyriaethau arbennig ar gyfer trwyddedau triniaeth arbennig, gan gynnwys hyfforddeion a phrentisiaid, cyrsiau anrheoleiddedig, isafswm oedran ymarferwyr a chleientiaid, tatwio pelenni'r llygaid a thatws gweladwy a thyllau'r corff.
- y diffiniad o 'gwrthrych' mewn perthynas â thyllu'r corff
- y trefniadau trosiannol ar gyfer symud rhwng y system bresennol a'r cynllun trwyddedu arfaethedig.

Roedd deunyddiau'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys Asesiad Effaith Integredig ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft. Roedd yr Asesiad Effaith Integredig yn cynnwys yr asesiadau statudol o'r polisi yn ei gyfanrwydd i ganfod unrhyw effeithiau ar y Gymraeg, plant, cydraddoldeb, diogelu data a'r amgylchedd, ymhlith pynciau eraill. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn nodi amcangyfrifon o gostau o ran amser a chostau ariannol a fyddai'n gysylltiedig â chyflwyno a gweithredu'r cynllun i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ymarferwyr, a gweithredwyr mangreoedd/cerbydau. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân ar y cyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas ag effaith cyflwyno'r cynllun mandadol ar y system gyfiawnder.

Gellir gweld y dogfennau yma: [Trwyddedu gorfodol ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, ystyriwyd yr ymatebion a gafwyd a'r camau pellach y byddai angen inni eu cymryd o bosibl yng ngoleuni'r ymatebion hyn er mwyn cyflwyno rheoliadau drafft yn ffurfiol.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb a dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd ac yn amlinellu'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd o ganlyniad iddynt. Rydym yn cydnabod bod eich ymatebion wedi helpu i lywio manylion ein rheoliadau drafft.

## Trosolwg o'r ymatebion a gafwyd

Cafwyd cyfanswm o 254 o ymatebion ar wahân gan nifer o sectorau, oddi wrth unigolion, cyrff cynrychioliadol, a buddiannau corfforaethol. Roedd 106 o'r ymatebion hyn yn cynnwys cyfeiriadau yng Nghymru. Cafwyd 96 o ymatebion gan unigolion neu sefydliadau y tu allan i Gymru, ond yn eu plith roedd 14 o'r ymatebion gan gyrff cynrychioliadol neu gwmnïau â phresenoldeb neu aelodaeth yng Nghymru. Cafwyd 56 o ymatebion eraill nad oeddent yn nodi lleoliad yr anfonwr.

Mae'r ymatebion wedi cael eu categorio yn ôl y sector a nodwyd ym mhob ymateb. Ni nodwyd unrhyw sector penodol mewn nifer o'r ymatebion, ac felly maent wedi'u categorio'n 'unigolion'. Hefyd, mae pedwar ymateb wedi'u marcio'n wag am na ellid eu defnyddio am sawl rheswm gwahanol a esbonnir isod. Felly roedd 250 o ymatebion cyflawn, o'r 254 a ddaeth i law. Mae dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd yn ôl categori a lleoliad fel a ganlyn:

Lleoliad a ddatganwyd	Aciwbigo	Tyllu'r corff	Tatwio	Lliwio'r croen yn lled-barhaol	Cyrff cynrychioliadol	Awdurdod Lleol	unigolyn	gwag
Yng Nghymru	33	6	17	10	11	17	8	
Y tu allan i Gymru	60	11	0	0	8	0	3	1
Lleoliad anhysbys	16	18	3	0	20	0	9	3
Cyfanswm	109	35	20	10	39	17	20	4

Mae '**aciwbigo**' yn cynnwys ymarferwyr unigol a chyrff cynrychioliadol

Mae '**tyllu'r corff**' yn cynnwys ymarferwyr unigol, busnesau bach, cyrff cynrychioliadol, a chwmnïau mwy o faint sy'n cynnig triniaethau tyllu'r corff fel rhan o'u busnes cyffredinol.

'Mae '**tatwio**' yn cynnwys ymarferwyr unigol a busnesau bach.

Mae '**lliwio'r croen yn lled-barhaol**' yn cynnwys ymarferwyr unigol sy'n lliwio'r croen yn lled-barhaol.

Mae '**cyrff cynrychioliadol**' yn cynnwys cymdeithasau masnach, cyrff proffesiynol statudol, gwneuthurwyr, a phwyllgorau awdurdodau lleol. Mae'r unig ymateb a gafwyd a oedd yn ymwneud yn benodol ag electrolysis wedi'i gynnwys yn y categori hwn.

Mae '**awdurdodau lleol**' yn cynnwys ymatebion ar ran awdurdodau lleol unigol yng Nghymru ac ymatebion gan unigolion mewn awdurdodau lleol yng Nghymru

Mae '**unigolion**' yn cynnwys pobl nad ydynt yn nodi buddiant mewn unrhyw sector penodol neu bobl na ellid cadarnhau eu buddiant o'u ymatebion.

Mae '**gwag**' yn cynnwys dwy ffurflen ar-lein a gyflwynwyd nad oeddent yn cynnwys unrhyw ymateb ac e-bost a ddaeth i law a oedd yn cynnwys atodiad y gellid ei agor ond a ddangosai god cyfrifiadurol



yn unig. Dim ond un o'r ffurflenni ar-lein oedd yn cynnwys cyfeiriad e-bost. Anfonwyd negeseuon dilynol at yr anfonwyr lle y bo modd, ond ni chafwyd unrhyw ymatebion pellach ynglŷn â'u bwriadau.

Yn ogystal, cawsom un e-bost a gofnodwyd cyn gweld nad oedd yr atodiad llawn wedi'i gynnwys. Cysylltwyd â'r anfonwr ac anfonodd un arall yn ddiweddarach, felly derbyniodd yr ymatebydd hwn ddau rif sydd wedi'u cyplysu, ond mae un wedi cael ei gyfrif fel un gwag.

Cofnodwyd y pedwar ymateb hyn a rhoddwyd rhifau ymateb iddynt yn unol ag arfer Llywodraeth Cymru ond nid ydynt wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad o'r ymatebion ym mharagraffau dadansoddi pob cwestiwn.

Gallai'r ymatebwyr ddefnyddio templed o ffurflen ymateb ar-lein neu ei chyflwyno drwy e-bost neu'r post. Nid oedd yn ofynnol i ymatebwyr ddefnyddio'r ffurflen a gallent ymateb drwy unrhyw ddull ysgrifenedig. Cyflwynwyd y mwyafrif o'r ymatebion drwy'r ffurflen ymateb ar-lein. Cafwyd un ymateb a gafodd ei ysgrifennu â llaw a'i sganio, sydd wedi cael ei drawsgrifio ar gyfer y ddogfen hon.

Atebodd rhai ymatebwyr bob un o'r cwestiynau, ymatebodd eraill i rai o'r cwestiynau, ac nid atebodd rhai ymatebwyr y cwestiynau'n uniongyrchol gan ysgrifennu am y materion roeddent am eu codi. Gwnaeth tri chorff cynrychioliadol gwahanol baratoi ymateb wedi'i gwblhau i'w haelodau. Ailgyflwynodd eu haelodau yr ymatebion hyn, heb sylwadau pellach ar y cyfan, ond gwnaeth rhai gynnwys diwygiadau. Felly, cawsom nifer mawr o ymatebion unfath neu bron yn unfath gan aelodau perthnasol y tri sefydliad hynny.

Cafodd pob un o'r ymatebion eu cofnodi a'u rhifo yn yr union drefn y'u derbyniwyd, ni waeth pa fformat a ddefnyddiwyd i'w cyflwyno. Anfonodd dau unigolyn/sefydliad gwahanol ddau ymateb yr un ac mae'r rhain wedi cael eu paru â'i gilydd lle maent yn union yr un fath. Anfonodd dau unigolyn ddau ymateb gwahanol ar adegau gwahanol o'r cyfnod ymgynghori. Yn unol â'r cyngor gan ein tîm llywodraethu corfforaethol, mae'r rhai wedi cael eu cyfrif ar wahân. Mae'r holl ddyblygion wedi cael eu cyfrif fel pe baent yn ymatebion unigol yn unol ag arfer Llywodraeth Cymru.

## **Bod yn ddiennw**

Gofynnwyd i bob ymatebydd a oedd yn defnyddio'r ffurflen ymateb, ymateb i'r cwestiwn canlynol ynglŷn â bod yn ddiennw:

**'Mae'n bosibl y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi – ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. 'Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei anonymeiddio, ticiwch yma:'**

Gofynnodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'w hymateb aros yn ddiennw. Rhoddodd y mwyafrif o'r rhain eu henwau, ond ni wnaeth rhai gwblhau'r manylion ynglŷn ag enw a chyfeiriad. Mae ymatebion gan unigolyn na wnaethant ddefnyddio'r ffurflen ymateb wedi cael eu cadw'n ddiennw am na wyddom beth oedd eu bwriad. Lle y cafodd yr ymatebion eu cyflwyno gan gorff cynrychioliadol ar ffurf llythyr, rydym wedi cyhoeddi enw'r sefydliad am fod ei fwriad yn eglur. Cawsom dri ymateb ffurfiol gan awdurdodau lleol lle y nodwyd arnynt eu bod am eu cadw'n ddiennw, a oedd yn anarferol yn ein barn ni. Cadarnhaodd yr ymatebwyr hyn yn ddiweddarach mai camgymeriad ydoedd ac maent wedi rhoi caniatâd inni gyhoeddi eu henwau.

Mae pob un o'r ymatebion a ddisgrifir yn rhai 'dienw' yn y ddogfen hon wedi dod oddi wrth unigolion gwahanol, a lle mae'n hysbys ym mha sector y mae ganddynt fuddiant, nodir hyn.

Cyflwynwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn Saesneg, cyflwynwyd un yn Gymraeg, a chyflwynwyd un yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, cyflwynir yr ymatebion yn yr iaith a ddefnyddiwyd ac nid ydynt wedi'u cyfieithu.

Cafodd cyfanswm o 47 o ffurflenni ymateb ychwanegol eu creu ar y system ar-lein ond ni chawsant eu cyflwyno. Roedd nifer o'r rhain yn gwbl wag, ond crëwyd 24 o ymatebion wedi'u cwblhau'n rhannol. Ni ellid eu cynnwys am nad oeddent wedi cael eu cyflwyno'n ffurfiol gan y person drwy glicio 'anfon'. O dan reolau diogelu data, mae'n rhaid anwybyddu'r ymatebion rhannol hyn gan nad yw'r cydsyniad i ddefnyddio'r ymateb wedi cael ei roi'n dechnegol. Felly, nid yw'r 24 o ymatebion o'r fath wedi cael eu cynnwys yn y ddogfen ac nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn ein hystyriaethau.

Ceir rhestr o'r rhai y gwahoddir iddynt ymateb i'r ymgynghoriad yn y ddogfen hon yn **Atodiad 1**. Cyhoeddir testun yr ymatebion a gyflwynwyd mewn dogfen ar wahân, **Atodiad 2**. Rydym wedi cyflwyno'r ymatebion hyn mewn fformat cyson er eglurder, ond rhoddir testun yr ymatebion yn llawn, a heb ei olygu heblaw am y golygiadau i dynnu enwau unigolion neu gwmnïau y cyfeiriwyd atynt yn yr ymatebion neu unrhyw fanylion eraill a allai fod yn fodd i adnabod yr ymatebydd os yw wedi gofyn am fod yn ddienw. Dangosir golygiadau mewn bachau petryal fel [enw wedi'i hepgor]. Cyhoeddir Atodiad 2 fel dogfen ar wahân oherwydd ei faint.

## **Materion Cyffredinol**

Codwyd nifer o faterion cyffredinol gan wahanol sectorau yn yr ymatebion a roddwyd i gwestiynau penodol, yr ymdriniwn â nhw yma.

### **Pam nad oedd yr is-ddeddfau wedi cael eu mabwysiadu gan fwy o awdurdodau lleol**

Gofynnodd nifer o'r ymatebion pam na chafodd yr is-ddeddfau enghreifftiol eu mabwysiadu gan fwy o awdurdodau lleol, a oedd yn awgrymu na thybid eu bod yn angenrheidiol felly nad oes angen y ddeddfwriaeth hon ychwaith. Paratowyd yr is-ddeddfau fel mesur dros dro i awdurdodau lleol tra oedd deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei datblygu, a ddaeth yn gyfraith gwlad yn y pen draw yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Cymerodd tua phum mlynedd i basio'r Ddeddf, o'r cynigion polisi cychwynol i'r ddeddf derfynol, oherwydd yr holl drafodaeth yn y Senedd ac ymgynghori ag arbenigwyr a'r cyhoedd a oedd yn angenrheidiol. Er mwyn i awdurdodau lleol fabwysiadu'r is-ddeddfau, byddai wedi bod yn rhaid iddynt ddilyn eu proses deddfwriaethol eu hunain gyda'u hadrannau cyfreithiol. Roedd llawer o'r farn y byddai hynny wedi mynd ag amser ac wedi bod yn gostus, felly roedd yn well ganddynt aros i'r Ddeddf ddod i rym.

Dechreuodd y gwaith rydym yn ymgymryd ag ef yn awr i wneud rheoliadau i sefydlu'r cynllun trwyddedu bron yn union ar ôl pasio'r Ddeddf yn 2017, ond cafodd ei atal dros dro, yn gyntaf am fod adnoddau staff yn canolbwyntio ar Brexit, ac yna oherwydd pandemig COVID-19. Dim ond yn 2022 roeddem yn gallu ailddechrau ar y gwaith presennol hwn a bydd yn cymryd tua dwy flynedd o'r adeg honno i roi'r rheoliadau ar waith yn unol â'r broses statudol briodol i wneud rheoliadau a dechrau'r cynllun.

### **Aciwbigo**

Roedd llawer o'r ymatebion gan aciwbigwyr yn holi pam mae aciwbigo wedi'i gynnwys yn y ddeddfwriaeth hon ac roeddent wedi cynnig esemptiad cyffredinol rhag trwyddedu mandadol. Roedd llawer hefyd o'r farn y bydd cysylltiad â thatwio a thyllu'r corff yn amharu ar eu henw da. Rydym yn ymateb fel a ganlyn:

- Mae aciwbigo wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth ragflaenol fel un o'r 'triniaethau arbennig' y mae'n rhaid cofrestru ag awdurdodau lleol mewn cysylltiad â nhw. Yn hanesyddol, cafodd aciwbigo ei gynnwys yn Neddf Darpariaethau Amrywiol Llywodraeth Leol 1982 yn sgil nifer o achosion o hepatitis yn y 1970au a gafodd eu holrhain i safonau hylendid gwael aciwbigwr. Hefyd, mae aciwbigo yn un o'r triniaethau arbennig yn Rhan 2 o Ddeddf Awdurdodau Lleol Llundain 1991.
- Mae aciwbigo, fel tyllu'r corff, tatwio ac electrolysis, yn golygu gosod nodwyddau i mewn i'r croen, sydd yr un mor debygol o achosi haint. Rydym yn derbyn nad yw'r risg y bydd hyn yn digwydd yr un fath o reidrwydd ond, yn y pen draw, mae'r risg yn dibynnu ar ymarfer yr aciwbigwr unigol.

- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn categoreiddio diwydiannau at ddibenion paratoi ystadegau'r llywodraeth ar gyflogaeth yn bennaf. Nid yw'r ffaith bod aciwbigo wedi cael ei osod yn y categori iechyd meddwl yn arwyddocaol o gwbl ac eithrio at ddibenion dadansoddi ystadegol ac ni ddylid dehongli bod hynny yn rhoi unrhyw statws cymeradwyo.
- Ceisiodd nifer o gymdeithasau aciwbigo ddadlau y dylai eu haelodaeth fod yn gwbl esempt rhag bod yn rhan o'r cynllun. Rydym yn ymwybodol bod nifer o gymdeithasau o'r fath sydd â thelerau aelodaeth a chodau ymarfer gwahanol, ac nad oes unrhyw gonsensws amlwg o ran llwybrau hyfforddiant cymeradwy. Hefyd, nid yw'n ofynnol i unrhyw aciwbigwyr fod yn aelod o unrhyw gymdeithas i ymarfer, dilyn unrhyw gwrs cymeradwy, na chael unrhyw oruchwyliaeth wrthrychol er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at unrhyw godau ymarfer. Am y rhesymau hyn, ni allwn roi esemptiadau cyffredinol i aelodau cymdeithasau penodol. Rydym yn ymwybodol bod rhai cymdeithasau wedi cael statws esempt mewn rhai o fwrdeistrefi Llundain, ond nid yw hyn yn gyson rhwng bwrdeistrefi Llundain, a gall fod yn ofynnol i unigolion gofrestru, ni waeth pa statws esempt sydd gan y gymdeithas y maent yn aelodau ohoni.

## Tyllu'r corff

Roedd y gwneuthurwyr a'r siopau cadwyn a ymatebodd mewn perthynas â thyllu'r clustiau eisiau i Lywodraeth Cymru greu categori ar wahân, sef 'tyllu cosmetig' er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt hwy a'r rhai sy'n tyllu'r corff. Nid yw hyn yn bosibl am fod Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn llywodraethu'r diffiniad o 'tyllu'r corff'. Mae'r clustiau wedi'u cynnwys yn y diffiniad hwn ac maent yn agored i'r un risg o heintio. Nid ydym yn derbyn y ddadl bod 'tyllu cosmetig' y clustiau yn wahanol i unrhyw fath arall o dyllu'r corff.

Mae nifer o dyllwyr y corff wedi galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd y defnydd o systemau gynnu a chetris tyllu (y cyfeirir atynt yn gryno fel 'gynnau tyllu' o hyn ymlaen ond sy'n cynnwys pob math o gyfarpar tebyg) ar y sail nad oes modd eu sterileiddio a'u bod yn achosi niwed i'r feinwe a dyllir. Nid oes gennym y pŵer cyfreithiol i wneud hyn, am mai Senedd y DU sy'n ymdrin â diogelwch cynhyrchion. Fodd bynnag, gallwn wneud darpariaethau i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r defnydd o'r dyfeisiau hyn, a thrafodir hyn yn y cwestiynau perthnasol.

Nid ydym yn derbyn y ddadl a wnaed gan y sector gemwaith manwerthu mai dyfeisiau meddygol yw gynnu tyllu ar gyfer y glusten, cartilag y glust a'r ffroen. Mae dyfeisiau meddygol yn y DU yn cael eu rheoleiddio o dan Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002 ac mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd wedi cadarnhau'r diffiniad inni. Mae dyfais feddygol yn cynnwys unrhyw gyfarpar, meddalwedd, deunydd, neu wrthrych arall, a ddefnyddir ar ei phen ei hun neu ar y cyd, y mae'r gwneuthurwr yn bwriadu iddi gael ei defnyddio gan bobl at ddiben meddygol. Rydym o'r farn, gan nad oes i dyllu'r clustiau na'r ffroenau unrhyw gymhwysiad meddygol, na ellir ystyried y cyfarpar mecanyddol a ddefnyddir yn 'feddygol' o fewn y diffiniad hwn.

Codwyd mater tyllu clustiau babanod a phlant ifanc, ac mae'r pwnc hwn wedi cael ei godi gyda ni sawl gwaith yn y gorffennol. Ni allwn wahardd yr arfer hwn oni bai bod tystiolaeth gymhellol bod plant ifanc yn cael eu niweidio a bod angen gweithredu er budd y cyhoedd. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth gymhellol bod plant bach yn cael eu niweidio am fod eu clustiau wedi cael eu tyllu, naill ai drwy'r weithred ei hun neu drwy gymhlethdodau wedi hynny. Nid ydym yn ymwybodol bod yr arfer yn gyffredin iawn, a chyfyd materion diwylliannol a hawliau dynol a allai herio unrhyw waharddiad y gellid ei gynnig. Sylweddolwn fod rhai o'r farn bod yr arfer hwn yn annerbyniol ond mae'n rhaid inni gydbwysu caniatáu'r arfer o dan amgylchiadau cyfyngedig yng nghyd-destun diogel tyllwr proffesiynol â'r risg wirioneddol y bydd rhieni yn ceisio tyllu clustiau eu plant eu hunain os na allant gael rhywun i wneud hynny'n gyfreithlon. Gan mai rhiant neu warcheidwad sy'n gyfrifol yn ôl y gyfraith am wneud unrhyw benderfyniadau ar ran plentyn sy'n rhy ifanc i gydsynio ei hun, byddai'n anodd iawn ceisio diystyru'r cyfrifoldeb hwnnw.

## **Cerbydau**

Mynegodd nifer o'r ymatebwyr bryder y gallai cerbydau gael eu cymeradwyo ar gyfer triniaethau arbennig. Ymddengys fod camddealltwriaeth bod 'cerbyd' yn golygu unrhyw gerbyd, megis y car teuluol neu fan gludo, ac fel y cyfryw dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod hyn yn annerbyniol.

Yng nghyd-destun trwyddedu triniaethau arbennig, ystyr 'cerbyd' yw unrhyw gerbyd sydd wedi cael ei gyfarparu'n benodol i ymgymryd â thriniaethau arbennig fel stiwdio symudol, ac maent yn fwyaf tebygol o fod yn garafanau, yn gerbydau hamdden neu'n gerbydau eraill sydd wedi cael eu trosi o'u diben gwreiddiol megis bysiau neu ambiwlansys. Nid yw'n golygu y gall unrhyw gerbyd gael ei ddefnyddio yn y ffordd hon, a bydd yn ofynnol i unrhyw un sy'n cyflwyno cerbyd o'r fath i'w gymeradwyo ddangos yr un safonau o ran rheoli heintiau, hylendid, a rheoli'r cerbyd. Rydym yn ymwybodol bod y defnydd o gerbydau o'r fath yn ddadleuol yn y sector tatŵio a thyllu'r corff ond, gan eu bod yn cael eu defnyddio, mae'n dilyn y dylent gael eu cynnwys yn y cynllun a'u cyflwyno i'w harchwilio a'u cymeradwyo ar yr un telerau â mangre sefydlog.

## **Gweithio gartref**

Mynegodd nifer o'r ymatebwyr bryder hefyd am gyfeiriadau at ymarferwyr sy'n gweithio gartref. Fel yn achos cerbydau, mae hyn wedi cael ei gamddechongli ac nid yw'n golygu y gall unrhyw un weithio mewn unrhyw ran o'i gartref. Mae gan nifer eithaf mawr o ymarferwyr stiwdio bwrpasol yn eu cartrefi lle maent yn gweld cleientiaid. Gall fod yn ystafell benodol, neu ran-dy a adeiladwyd yn bwrpasol neu adeilad ar ei ben ei hun. Bydd y stiwdios hyn yn ddarostyngedig i'r un gofynion o ran cymeradwyaeth ag unrhyw stiwdio sydd wedi'i lleoli mewn eiddo masnach, a bydd yn rhaid i'r gweithredwr ddangos yr un safonau o ran rheoli heintiau a rheoli'r fangre.

Gall y rhai hynny sy'n ymarfer yn eu cartrefi o dan amodau anaddas nad ydynt yn bodloni'r gofynion hyn, megis yn y gegin, y garej neu mewn unrhyw ystafell arall a ddefnyddir ganddynt fel man byw beunyddiol gael eu gorfodi i wneud cais am drwydded a chyrraedd yr un safonau ag unrhyw stiwdio arall, a byddant yn agored i

gael eu herlyn os nad ydynt yn cydymffurfio, p'un a ydynt yn cael eu talu am eu gwasanaethau neu nad ydynt yn rhedeg busnes.

### **Triniaethau eraill**

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr pam nad oedd triniaethau harddwch mewnwthiol eraill wedi cael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth hon. Rhoddwyd yr esboniad yn y ddogfen ymgynghori mai dim ond y pedair triniaeth a nodwyd fel rhai yr oedd angen dybryd eu rheoleiddio yn 2017, ond bod darpariaeth wedi cael ei gwneud i allu ychwanegu mwy o driniaethau yn y dyfodol. Mae poblogrwydd triniaethau o'r fath wedi cynyddu y tu hwnt i bob disgwyl ers 2017, a bu'n fwriad polisi o'r cychwyn y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried ychwanegu triniaethau pellach unwaith y bydd y cynllun fel y'i cynigiwyd yn weithredol.

## **MANYLION YR YMATEBION FESUL CWESTIWN**

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i fandadu ffurf a chynnwys trwydded triniaethau arbennig a thystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd o fewn y rheoliadau? A oes unrhyw beth arall y dylid ei gynnwys yn ffurf y dogfennau hyn?**

### **Trosolwg**

Atebodd 225 y cwestiwn, ac ni wnaeth 25 ei ateb. Atebodd 186 'ydw' a rhoddodd 67 ohonynt ymateb hirach; Atebodd 4 'nac ydw' a rhoddodd 1 ohonynt ymateb hirach; darparodd 35 ymatebion ysgrifenedig manwl ond heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cafwyd cytundeb cyffredinol â'r cynnig hwn, a gwnaeth llawer o'r ymatebwyr awgrymiadau ynglŷn â safoni disgrifiadau a mandadu'r ffurflenni cais yn ogystal â'r tystysgrifau er mwyn sicrhau cysondeb. Nid atebodd nifer o'r ymatebwyr y cwestiwn penodol ond fe'i defnyddiwyd ganddynt i roi gwybodaeth am eu sefydliad neu eu proffesiwn.

- Roedd aciwbwyr yn enwedig yn awyddus i roi'r ddadl dros eithrio eu proffesiwn fel y'i trafodwyd yn flaenorol.
- Mynegodd nifer bryder ynglŷn â gweithio gartref a thrwyddedu cerbydau.
- Roedd rhai o'r farn y dylai ymarferydd ddangos lefel ofynnol o brofiad cyn y gallai hyfforddi eraill.
- Mynegodd rhai bryderon y byddai'r gofrestr gyhoeddus yn rhoi cymeradwyaeth i'r ymarferwyr a restrir, ni waeth beth fo'u cymwysterau na'u profiad.
- Cododd rhai cwestiynau hefyd ynglŷn â sut y gallai rhywun sydd wedi cael trwydded gan un awdurdod lleol gael ei wirio gan awdurdod lleol arall.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nodwn y cytundeb cyffredinol ynglŷn â'r cynnig, a'r awgrymiadau a wnaed. Byddwn yn sicrhau y caiff deunyddiau'r cynllun eu safoni cymaint â phosibl, ond efallai na fydd yn bosibl mandadu popeth. Nodwn yr ymholiadau ynglŷn â'r gofrestr a gallwn gadarnhau y bydd yn cynhyrchu rhifau adnabod unigryw yn ddilyniannol, ni waeth pa awdurdod lleol sy'n dyroddi'r rhif, ac y bydd pob awdurdod lleol yn gallu cadarnhau'r rhifau adnabod hyn yn erbyn y gofrestr. Nodwn y pryder y gall cofnod ar y gofrestr awgrymu bod gallu neu ansawdd gwasanaeth ymarferydd wedi cael ei gymeradwyo. Byddwn yn ei gwneud yn hollol eglur mai cofnod o ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau sydd wedi cael eu harchwilio a'u trwyddedu yw'r rhestr, ac na ddylai neb lunio barn ar unrhyw agwedd arall ar sail y rhestr hon.

Yn ein barn ni, mae rhai ymatebwyr wedi camddehongli'r cyfeiriadau at weithio gartref ac mewn cerbydau, fel y'i trafodwyd yn flaenorol.

Nodwn yr wybodaeth a roddwyd gan aciwbigrwyr am eu cymdeithasau proffesiynol penodol ond credwn eu bod yn gwneud tybiaethau cyffredinol iawn bod pob aciwbigrwr yn gweithredu'n unol â'r un cymwysterau a safonau, nad yw'n wir. Byddai ceisio esemptio un corff proffesiynol ond nid un arall yn seiliedig ar farn y corff ei hun yn unig yn hytrach na safon statudol wrthrychol yn tanseilio holl ddiben y cynllun i greu un safon gyson o drwyddedu.

Byddwn yn bwrw ati i fandadu'r tystysgrifau a'r ffurflenni cais am drwydded newydd neu dystysgrif gymeradwyo fel y'i cynigiwyd, gan addassu'r derminoleg.

## **Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i wneud rheoliadau ynghylch darpariaeth bellach (fel y nodir ym mharagraff 4.13)?**

### **Trosolwg**

Atebodd 208 y cwestiwn, ac ni wnaeth 42 ei ateb. Atebodd 185 'ydw' a rhoddodd 67 ohonynt ymateb hirach; atebodd 4 'nac ydw' a rhoddodd 2 ohonynt ymateb hirach; darparodd 19 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig, a gwnaed sylwadau y dylai'r ffurflenni cais, y ffioedd a'r broses i'w dilyn fod yr un fath ledled Cymru.

Ymddangosai fod pryder ein bod yn caniatáu i bobl weithio gartref.

Roedd ymatebion gan awdurdodau lleol yn ymwneud yn bennaf ag adnoddau a cheisiadau am gyllid, ond ar y llaw arall gofynnodd rhai am i fwy o driniaethau gael eu hychwanegu at y cynllun.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nodwn nad oedd nifer o'r ymatebwyr yn deall y cwestiwn i bob golwg. Rydym yn cydnabod bod angen sicrhau bod y deunyddiau ymgeisio yr un fath i Gymru gyfan, ac rydym wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu ffurflenni a deunyddiau eraill ar gyfer y cynllun, a fydd ar gael rywbryd yn y dyfodol. Nid ydym yn gyfrifol am osod ffioedd gan fod y rhain o fewn pwerau awdurdodau lleol. Rydym yn ystyried pob peth sy'n ymwneud â ffioedd o dan y cwestiynau perthnasol.

Rydym yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn wynebu problemau o ran cyllid, ac am y rheswm hwn mae'r cynllun trwyddedu wedi cael ei lunio fel cynllun adennill costau. Cyfrifoldeb pob awdurdod lleol yw ystyried sut y caiff derbyniadau ceisiadau eu dyrannu o fewn eu hawdurdodau. Byddem yn dadlau y dylai rhwymedigaethau statudol ychwanegol fod yn gyfle i awdurdodau lleol ystyried adnoddau mewnol priodol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu rhwymedigaethau statudol.



Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud nifer o ddatganiadau cyhoeddus am ei chyllidebau a'r angen i dynnu cyllid yn ôl a'u hailddyrranu, felly ni allwn roi cyllid ychwanegol ar gyfer y cynllun hwn.

O ran pobl yn gweithio yn y cartref, fel y'i trafodwyd yn flaenorol, dim ond os bydd gan bobl ystafell waith bwrpasol â chyfarpar, sydd wedi cael ei harchwilio a'i thrwyddedu i'r un safonau â stiwdio neu safle busnes arall y caniateir iddynt 'weithio gartref'. Nid yw'r cynnig hwn yn caniatáu i bobl weithredu o rannau o'u cartref megis bwrdd y gegin. Gall pobl o'r fath, ar hyn o bryd, geisio rhoi'r amddiffyniad nad ydynt yn cynnal busnes â thâl, ond mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol i'w gwneud yn ofynnol iddynt gael eu trwyddedu i'r un safonau â thrwyddedeion eraill, a'u gwahardd rhag gweithredu nes eu bod wedi cael trwydded sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio o fangre gymeradwy/cerbyd cymeradwy.

### **Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno bod naw mis yn gyfnod trosiannol digonol? Os ddim, pa hyd fyddai'n briodol?**

#### **Trosolwg**

Atebodd 224 y cwestiwn, ac ni wnaeth 26 ei ateb. Atebodd 77 'ydw' a rhoddodd 48 ohonynt ymateb hirach; atebodd 59 'nac ydw' a rhoddodd 55 ohonynt ymateb hirach; darparodd 88 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

#### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

O ran faint o amser y dylid ei roi ar gyfer y cyfnod trosiannol, mynegwyd nifer o safbwyntiau a oedd yn mynd o un pegwn i'r llall, o chwe mis i fwy na thair blynedd. Fodd bynnag, ymddangosai fod dwy farn gyffredinol, y naw mis a gynigiwyd neu 12 mis.

Gwnaeth nifer o'r cymdeithasau aciwbigo ddwyn cysylltiad â chyrsiau hyfforddiant gradd sy'n para am dair blynedd.

Cododd awdurdodau lleol nifer o bryderon ynglŷn â rheoli'r llif o geisiadau i mewn, gan wneud nifer o awgrymiadau megis terfynau amser byrrach ar gyfer ceisiadau a mwy o amser i'w prosesu neu eu rheoli drwy grwpio sectorau.

Cododd nifer o'r ymarferwyr bryderon ynghylch a oedd y cwrs atal a rheoli heinitiau ar Lefel 2 ar gael yn eu hardaloedd.

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bwriedir y cyfnod trosiannol ar gyfer pobl sydd eisoes yn cynnal busnes, i'w trosglwyddo o'r cynllun cofrestru presennol i'r cynllun trwyddedu newydd ond caniatáu iddynt fasnachu tra bydd ceisiadau yn cael eu prosesu. Ni fyddai gan unrhyw rai nad ydynt yn cynnal busnes ar hyn o bryd hawliau o dan unrhyw ddarpariaeth drosiannol a byddent yn gwneud eu cais o dan y cynllun newydd ac ni chaniateid iddynt weithredu hyd nes bod eu cais am drwydded wedi cael ei gymeradwyo. Yn ôl y gyfraith, nid yw'n bosibl rhedeg y ddau gynllun gwahanol ochr

yn ochr â'i gilydd: mae'n rhaid i'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu un cynllun gael ei dirymu ac mae'n rhaid i'r un newydd gychwyn ar yr un pryd, tra byddwn hefyd yn caniatáu i fusnesau presennol barhau i fasnachu ac yn rhoi pwerau gorfodi i awdurdodau lleol.

Rydym yn cydnabod y materion a godwyd gan awdurdodau lleol ynglŷn â phrosesu nifer mawr o geisiadau. Fodd bynnag, nid yw'r atebion a gynigiwyd, sef prosesau ymgeisio ar fwy nag un cam neu ofyn i ymarferwyr wneud cais o fewn terfyn amser byr, ond na fyddent yn clywed dim rhagor am nifer o fisoedd, yn anymarferol yn ein barn ni. Yn ein barn ni, byddai hyn yn gorgymhlethu'r broses ymgeisio i ymgeiswyr ac awdurdodau lleol fel ei gilydd ac yn achosi drwgdeimlad pe bai ymgeiswyr wedi talu eu ffi ac yn cael gwybod bod yn rhaid iddynt aros am gyfnod estynedig cyn bod eu cais yn cael ei brosesu.

Gwnaethom ystyried y dadleuon a gyflwynwyd mewn perthynas â chyfnod trosiannol hwy o 12 mis ac rydym yn cydnabod bod rhyw werth i'r gwrthgynnig.

Rydym wedi cael cyngor gan adrannau trwyddedu awdurdodau lleol, sydd wedi cael profiad o reoli cyfnodau trosiannol ar gyfer cynlluniau trwyddedu newydd ac maent wedi nodi'n glir y dylai terfynau amser trosiannol fod mor fyr â phosibl. Mae trafodaethau o sylwedd wedi cael eu cynnal gydag awdurdodau lleol ynghylch yr hyn y bydd yn ofynnol iddynt ei roi ar waith cyn bod y cynllun yn mynd yn fyw, a bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r deunyddiau ymgeisio, hyfforddiant, a chanllawiau cyn y dyddiad hwn.

Ar ôl ystyried y cyngor ar gyfnodau trosiannol a roddwyd gan awdurdodau lleol inni, rydym o'r farn y dylai naw mis fod yn ddigon, ar yr amod ein bod yn addasu ein cynnig i gydbwysu anghenion ymgeiswyr i gael penderfyniadau ac anghenion awdurdodau lleol i ystyried ceisiadau'n llawn a chynnal yr arolygiadau angenrheidiol. Byddwn yn amlinellu mewn canllawiau i awdurdodau lleol ac ymarferwyr sut y dylai ceisiadau gael eu rheoli o fewn y cyfnod o naw mis.

Mae'n bosibl bod argaeledd dyfarniad Lefel 2 a reoleiddir mewn Atal a Rheoli Heintiau i ymarferwyr triniaethau arbennig yn broblem ar adeg lansio'r ymgynghoriad. Rydym wedi nodi'r amrywiad yn y ffioedd a godir gan ganolfannau hyfforddiant cymeradwy, ond mae hyn y tu hwnt i'n rheolaeth am mai'r darparwr unigol sy'n pennu'r ffi a godir. Fodd bynnag, mae mwy o ddewis ar gael erbyn hyn, a mwy o ddarparwyr yng Nghymru ac ar-lein. Rydym hefyd ar ddeall bod llawer o'r awdurdodau lleol yn gweithio gyda darparwyr hyfforddiant i wneud yr hyfforddiant yn fwy hygyrch. Mae ymarferwyr wedi cael gwybod am y cyrsiau hyn drwy ein cylchlythyr i ymarferwyr, ac rydym wedi mynd ati i'w hannog i ymgymryd â'r cwrs a sicrhau tystysgrif llwyddo ymhell cyn y dyddiad dod i rym.

#### **Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno bod yr isafswm oedran a gynigir ar gyfer ymgeiswyr am drwyddedau triniaeth arbennig yn briodol?**

##### **Trosolwg**

Atebodd 226 y cwestiwn, ac ni wnaeth 24 ei ateb. Atebodd 211 'ydw' a rhoddodd 53 ohonynt ymateb hirach; atebodd 6 'nac ydw' a rhoddodd 5 ohonynt ymateb hirach; darparodd 9 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

##### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig ac yn cytuno bod 18 oed yn oedran priodol i rywun allu gwneud cais am drwydded ymarferydd. Codwyd rhai pryderon ynglŷn â myfyrwyr mewn colegau addysg bellach a all raddio'n 17 oed, a hefyd wrthwynebiadau gan y manwerthwyr a'r cynrychiolwyr hynny yn y diwydiant cysylltiedig sydd wedi arfer hyfforddi pobl ifanc 16-18 oed i ddefnyddio gwn tyllu.

##### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'n dda gennym nodi bod y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi cytuno ac felly bwriadwn fwrw ymlaen â hyn yn unol â'r cynnig. Cyn yr ymgynghoriad, roeddem wedi ymgynghori â chynrychiolwyr yn y diwydiant a cholegau addysg bellach ynghylch a fyddai hyn yn effeithio ar unrhyw un ar eu cyrsiau neu'r rhai sydd wedi cymhwyso'n ddiweddar, a dywedwyd wrthym na fyddai hynny'n digwydd.

Ni dderbyniwn fod 16 oed yn oedran priodol i ganiatáu i rywun ddal trwydded i dyllu clustiau â gwn tyllu. Pa ddull bynnag a ddefnyddir, mae tyllu'r clustiau yn peri'r risg o heintio o hyd ac mae'n gofyn am rywfaint o aeddfedrwydd i reoli'r broses o ymgynghori â'r cleient ac nid oes modd gwneud eithriad ar gyfer ychydig o fanwerthwyr. Gwelwyd yn yr ymatebion fod eraill yn y diwydiant tyllu'r corff am weld gofyniad ar bob ymarferydd i ddilyn yr un safonau. Yn ein barn ni, mae pobl sydd yn 18 oed o leiaf mewn sefyllfa well i fodloni gofynion y cynllun.

#### **Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf trwyddedu a gynigir ar gyfer trwyddedau triniaeth arbennig a'r dogfennau ategol a restrwyd? A ddylai ymgeiswyr orfod cyflwyno unrhyw ddogfennau eraill?**

##### **Trosolwg**

Atebodd 225 y cwestiwn, ac ni wnaeth 25 ei ateb. Atebodd 70 'ydw' a rhoddodd 31 ohonynt ymateb hirach; atebodd 29 'nac ydw' a rhoddodd 27 ohonynt ymateb hirach; darparodd 126 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

##### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cafwyd cytundeb cyffredinol ynglŷn â'r meini prawf a gynigir, ond roedd aciwbwyr o'r farn na ddylent gael eu cynnwys o dan y cynllun trwyddedu. Roedd rhywfaint o gamddeall ynglŷn â sut y byddai rhywun yn cael y gwiriad gofynnol gan y

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a phwy fyddai'n gwneud cais amdano. Gofynnodd rhai pam na ddylai ymarferwyr fod yn 16 oed cyn gwneud cais, a gwnaeth eraill gwynion ynglŷn â chostau ceisiadau, a'r rheidrwydd i ailymgeisio bob tair blynedd.

Codwyd nifer o bryderon ynglŷn â'r rheidrwydd i lenwi'r holiadur arfaethedig ynglŷn ag atal a rheoli heintiau, yn enwedig am fod tystysgrif llwyddo yn y cwrs Lefel 2 yn ofynnol. Dywedodd rhai ymatebwyr nad oes modd cael tystysgrifau yswiriant oni bai bod y person neu'r fangre eisoes wedi ei drwyddedu/thrwyddedu.

Awgrymodd awdurdodau lleol amrywiol ddogfennau eraill y dylid eu cyflwyno ar y cyd â chais.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rhoddir y rhesymau dros gynnwys aciwbigrwyr yn y cynllun yn yr adran o'r ddogfen hon sy'n ymwneud â 'Materion Cyffredinol'. Rhoddwyd y rhesymeg dros y gofyniad o ran oedran yn y ddogfen ymgynghori ac fe'i trafodir hefyd yn ein hymateb i gwestiwn 5.

Rhaid i'r drwydded gael ei hadnewyddu bob tair blynedd er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn cadw at y safonau y cawsant eu trwyddedu'n wreiddiol yn unol â nhw. Cofrestriad untro yw'r cynllun presennol, heb unrhyw ofynion pellach ar yr ymgeisydd. Pennir y cylch adnewyddu ar dair blynedd yn y Ddeddf, felly nid oes modd ei newid. Mae'n gyfnod rhesymol o amser i beidio â bod yn faich ar ymarferwyr nac awdurdodau lleol, ond nid yw'n ddigon hir i ymarferwyr fynd yn hunanfodlon.

Rydym yn cydnabod y pryderon ynglŷn â'r holiadur ar atal a rheoli heintiau. Gwnaethom ei gynnwys yn y cynnig yn ogystal â'r dystysgrif llwyddo mewn atal a rheoli heintiau fel ffordd i ymgeiswyr ddangos sut y byddent yn cymhwyso mesurau atal a rheoli heintiau at eu gweithle eu hunain. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr ymatebion ynglŷn â pha mor gymesur yw'r gofyniad hwn, gan y byddai'r ymgeisydd yn destun arolygiad ac yn cael ei holi am ei arferion gwaith fel rhan o'r broses ymgeisio, rydym yn tyngu'r agwedd hon ar y cynnig yn ôl.

Caiff y dystysgrif sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ei darparu gan ymgeiswyr wrth gyflwyno eu ffurflen gais am mai hon yw unig lefel o dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y gall unigolion ei chael drostynt hwy eu hunain. Drwy ddarparu'r dystysgrif mae hyn yn rhoi dilysiad annibynnol o'r hyn a ysgrifennwyd ar y ffurflen gais mewn perthynas ag unrhyw euogfarnau troseddol perthnasol.

Nodwn y materion a godwyd bod trwydded ddilys yn un o'r gofynion er mwyn cael yswiriant priodol a byddwn yn addasu gofynion y cais i ymgeiswyr nad ydynt yn cynnal busnes eto yn unig. Bydd disgwyl i ymarferwyr presennol fod wedi trefnu yswiriant eisoes a bod mewn sefyllfa i roi prawf o'r yswiriant.

Gwnaed nifer o awgrymiadau defnyddiol ynglŷn â'r dogfennau i'w darparu. Fodd bynnag, yn ein barn ni, roedd y rhestrau hir o ddogfennau roedd rhai awdurdodau

lleol wedi awgrymu y dylid eu darparu ar gyfer pob cais yn ormodol ac y gellid dweud y byddai hynny'n amharu ar breifatrwydd unigolion oni bai eu bod yn ymwneud yn benodol â phrawf adnabod yn achos unigolyn, prawf o berchenogaeth yn achos cerbyd neu'n ymwneud â chadw at y safonau atal a rheoli heintiau sydd wedi'u cynnwys yn yr amodau.

**Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai ymgeiswyr roi tystiolaeth o'u cymhwysedd yn y driniaeth/triniaethau arbennig y maent yn dymuno ei/eu rhoi? Os ydych chi'n cytuno, sut y dylid dangos hynny, a pha dystiolaeth ddogfennol y dylid ei chynhyrchu?**

### **Trosolwg**

Atebodd 229 y cwestiwn, ac ni wnaeth 21 ei ateb. Atebodd 154 'ydw' a rhoddodd 41 ohonynt ymateb hirach; atebodd 20 'nac ydw' a rhoddodd pob un ohonynt ymateb hirach; darparodd 55 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Nid oedd nifer o'r ymatebwyr yn siŵr ynglŷn â'r hyn a oedd yn cael ei fesur o dan gymhwysedd, gan feddwl ei fod yn ymwneud â gallu artistig, cyflawniad academaidd, neu hyfforddiant. Roedd rhai yn pryderu nad oes unrhyw gymwysterau ffurfiol y gellid eu defnyddio fel tystiolaeth o rai o'r triniaethau, ond roedd cymwysterau o'r fath ar gael ar gyfer triniaethau eraill. Cafwyd cytundeb cyffredinol y dylai'r holl wybodaeth berthnasol am hyfforddiant, datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) neu aelodaeth o gymdeithasau masnach gael ei darparu lle bynnag y bo modd. Nodwyd hefyd y dylai mangreoedd fod yn destun arolygiad ac y dylai ymarferwyr gael eu holi am eu harferion gwaith.

Roedd rhai o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru roi fframwaith cymhwysedd a'r meini prawf ar gyfer cynllun prentisiaeth lle nad oes unrhyw gymwysterau ffurfiol ar hyn o bryd. Hefyd, roedd ymatebwyr o'r farn y dylai ymgeiswyr, lle maent yn goruchwylio neu'n hyfforddi eraill, ddatgan hyn yn eu cais.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o ddryswch wedi bod ynglŷn ag ystyr 'cymhwysedd'. Ni fu'n fwriad gennym erioed i hyn gwmpasu gallu technegol neu sgiliau artistig – ein hamcan yw sicrhau bod triniaethau arbennig yn cael eu cyflawni mewn ffordd ddiogel a hylan. Ystyr 'cymhwysedd' yw y dylai fod modd i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gymwys o ran mesurau atal a rheoli heintiau fel y maent yn gymwys i'w triniaeth arbennig benodol a'u gweithle. Byddant yn dangos hyn drwy dystysgrif llwyddo mewn cwrs atal a rheoli heintiau a'u dealltwriaeth o'r wybodaeth hon a sut i'w chymhwyso yn ystod arolygiad cydymffurfiaeth a gynhelir gan swyddog o'r awdurdod lleol.

Nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i ddatblygu fframwaith cymhwysedd addas na chynllun prentisiaeth lle nad oes un yn bodoli. Y cymdeithasau masnach

perthnasol sydd yn y sefyllfa orau i ystyried hyn yn ein barn ni. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na all rhai sectorau ddarparu tystysgrifau cymhwyso, ond gallant ddangos tystiolaeth o DPP, cymhwyso gwybodaeth a phrofiad.

Y bwriad o'r cychwyn oedd y bydd awdurdodau lleol yn cynnal arolygiad o fangreoedd ac yn ymweld ag ymarferwyr fel rhan o'r broses ymgeisio, er mwyn trafod sut maent wedi cymhwyso eu gwybodaeth am atal a rheoli heintiau yn y gweithle a chael sicrwydd y gellir cyrraedd y safonau yn yr amodau trwyddedu. Mae o leiaf un ymweliad fesul cais wedi'i gynnwys yn y costau i awdurdodau lleol yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol. Felly, rydym yn cadarnhau y bydd ymweliad arolygu yn un o ofynion y broses ymgeisio.

## **Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno bod y disgrifiadau cyfredol o droseddau perthnasol yn ddigonol? Os nad ydych chi, pam?**

### **Trosolwg**

Atebodd 203 y cwestiwn, ac ni wnaeth 47 ei ateb. Atebodd 155 'ydw' a rhoddodd 21 ohonynt ymateb hirach; atebodd 5 'nac ydw' a rhoddodd 4 ymateb hirach; darparodd 43 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cafwyd cytundeb cyffredinol bod y rhestr gyfredol o droseddau yn ddigonol. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cynnwys rhestr lawer ehangach o droseddau, hyd at a chan gynnwys pob math o drosedd. Roedd nifer o ymarferwyr yn pryderu bod rhai ymarferwyr yn hunangyflogedig am fod eu cofnod troseddol blaenorol yn golygu na allent gael cyflogaeth mewn man arall, ac felly y byddent yn ddi-waith pe na allent gael trwydded.

Awgrymodd rhai ymarferwyr, lle mae gan y sector gorff llywodraethu, y dylai unrhyw gamau disgyblu gan y corff hwnnw hefyd gael eu datgan a'u hystyried.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Ymddengys nad oedd nifer o'r ymatebwyr yn sylweddoli bod y rhestr gyfredol o droseddau wedi'i drafftio mewn ffordd sy'n golygu bod modd i amrywiaeth eang o droseddau fod yn berthnasol ym mhob categori. Yn ein barn ni, gallai unrhyw ymgais i restru troseddau perthnasol ychwanegol roi llai o hyblygrwydd na gofynion cyfredol y Ddeddf sy'n restru troseddau o dan categorïau ambarél megis troseddau treisgar neu rywiol.

Felly, nid oes angen ychwanegu troseddau penodol iawn megis trais domestig, gan fod y rhain eisoes wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad.

Hoffem bwysleisio mai diben cynnwys y troseddau perthnasol yw asesu a yw'r ymgeisydd yn peri risg i gleient, naill ai drwy niwed uniongyrchol neu drwy ymarfer

gwaith gwael. Byddai'r rhan fwyaf o'r troseddau sydd wedi cael eu hawgrymu yn amherthnasol at ddibenion trwyddedu. Un enghraifft yw y byddai cais rhywun a gafwyd yn euog o ymosod yn rhywiol yn ddiweddar yn debygol o gael ei wrthod pe bai'n dymuno cael ei drwyddedu i weithio gyda chleientiaid ar ei ben ei hun, ond byddai euogfarn am ddwyn o siop yn llai perthnasol.

Yn ein barn ni, byddai'n well ymdrin â rhai o'r awgrymiadau megis masnachu pobl, caethwasiaeth fodern a delio mewn cyffuriau neu nwyddau gwaharddedig eraill o dan y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r materion hyn. Nid nodi'r materion hyn a gweithredu arnynt yw diben y cynllun trwyddedu ond efallai y byddai ymarferwyr ac awdurdodau lleol yn cael gwybodaeth ddefnyddiol i'w throsglwyddo i'r asiantaethau gorfodi priodol.

Rydym yn deall pryderon rhai ymarferwyr y gall camgymeriad a arweiniodd at euogfarn flynyddoedd yn ôl bellach rwystro gyrfa. Dim ond euogfarnau heb eu disbyddu am droseddau perthnasol y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol eu hystyried. Mae'n rhaid i unrhyw unigolyn sydd ag euogfarnau heb eu disbyddu o'r fath gael ei ystyried yn ofalus gan awdurdod lleol ar sail achos unigol, a bydd hyn yn cynnwys difrifoldeb y drosedd, a yw wedi cael ei chyflawni eto ers hynny a faint o flynyddoedd yn ôl y cafodd ei chyflawni. Felly, y penderfyniad sylfaenol sydd i'w wneud yw a yw'r ymgeisydd hwnnw yn peri risg i gleient pe bai'n cael ei drwyddedu.

Gall ymarferwyr hefyd gyflwyno sylwadau i bwyllgor trwyddedu'r awdurdod lleol os caiff eu cais ei wrthod ar sail troseddau perthnasol ac os ydynt o'r farn bod amgylchiadau lliniarol nad ydynt wedi cael eu hystyried.

Mae rhwymedigaeth ar Lywodraeth Cymru i roi canllawiau statudol i awdurdodau lleol ynglŷn â sut y dylid dehongli ac ystyried troseddau perthnasol, a chaiff y canllawiau hyn eu cynnwys yn ein hymgyngoriad nesaf. Byddwn yn pwysleisio yn y canllawiau hyn mai dim ond euogfarnau heb eu disbyddu am droseddau perthnasol sy'n achosi risg uniongyrchol i ddiogelwch neu lesiant cleient y dylai awdurdodau lleol eu hystyried. Ni fyddai unrhyw drosedd heb ei disbyddu nad yw'n dod o dan y categorïau o 'troseddau perthnasol' yn cyfrif.

Rydym yn cydnabod yr awgrym ynglŷn â throseddau a gyflawnir o dan ddeddfwriaeth i Loegr yn unig mewn perthynas â rhoi triniaethau botwlinwm a deunydd llenwi i bobl ifanc dan oed. Bydd y broses ymgeisio yn ymdrin â'r mater hwn yn fwy cyffredinol ac yn yr hirdymor caiff ei gynnwys pan fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried dynodi triniaethau arbennig ychwanegol i'r cynllun trwyddedu hwn.

## **Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig hwn, sef y dylid gwneud rheoliadau i gyfyngu ar esemptiadau i aelodau'r cyrff proffesiynol a restrir yn adran 60?**

### **Trosolwg**

Atebodd 219 y cwestiwn, ac ni wnaeth 31 ei ateb. Atebodd 77 'ydw' a rhoddodd 36 ohonynt ymateb hirach; atebodd 8 'nac ydw' a rhoddodd 5 ohonynt ymateb hirach; darparodd 134 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cyfyngiadau ar esemptiadau ar y cyfan, ond gwnaeth nifer eithaf mawr o'r ymatebwyr ddehongli'r cynnig fel un sy'n caniatáu i'r proffesiynau a enwyd ymgymryd ag unrhyw rai o'r pedair triniaeth a gweithredu heb unrhyw reoleiddio.

Nododd nifer o ymarferwyr nad yw'n ofynnol i'w practisau preifat gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) felly na fyddai modd i'r ymarferydd gael esemptiad y gallai fod yn ei gael fel arall ar sail ei aelodaeth o gorff statudol pe bai'r gofyniad ar fangreuedd i gael arolygiad gan y GIG/AGIC yn fandadol. Rhoddodd nifer o'r cyrff statudol a enwyd wybodaeth am y ffordd y rheoleiddir eu haelodau ac a fyddai angen cymhwyso esemptiadau. Gwnaeth sawl awdurdod lleol awgrymiadau ynglŷn â rheoli esemptiadau a fyddai'n gofyn am sefydlu cynllun esemptio cyfochrog i bob diben. Roedd aciwbwyr yn benodol yn meddwl y dylai eu haelodaeth o gymdeithas broffesiynol roi statws esempt iddynt.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Er bod y mwyafrif yn cytuno â'r cynnig, roedd hefyd yn ddadleuol i rai ymarferwyr, yn bennaf am eu bod wedi tybio y byddai ymarferwyr esempt yn ymgymryd â thriniaethau nad oeddent erioed wedi eu rhoi, a hynny dim ond am y byddai modd iddynt wneud hynny. Y rhesymau dros yr esemptiadau yw bod y proffesiynau a restrir yn cael eu rheoleiddio'n helaeth gan eu cyrff llywodraethu proffesiynol; mae aelodaeth yn orfodol yn ôl y gyfraith ac mae pob aelod wedi cael hyfforddiant digonol i ddeall a rheoli heintiau. Cafodd yr esemptiadau hyn eu cynnwys yn y Ddeddf oherwydd y defnydd o aciwbigo gan rai aelodau o'r proffesiynau hyn, ac rydym hefyd yn ymwybodol bod tatŵyddion meddygol yn aelodau o rai o'r proffesiynau hyn. Nid yw'r esemptiadau yn golygu y gall unrhyw feddyg benderfynu'n sydyn reit i ddod yn datŵydd, er enghraifft.

Mynegodd rhai o'r cyrff llywodraethu hynny a restrwyd y farn nad oedd angen esemptiadau ar eu haelodau am nad oeddent yn rhoi unrhyw rai o'r triniaethau, neu y dylai eu hesemptiadau gael eu cyfyngu am mai dim ond aciwbigo oedd yn berthnasol. Felly, gwnaethom ymholiadau pellach gyda'r cyrff statudol perthnasol sy'n cynrychioli'r proffesiynau a reoleiddir a restrwyd ac rydym wedi diwygio ein cynnig gwreiddiol ynglŷn â sut y bydd yr esemptiadau yn cael eu cymhwyso. Rydym wedi newid y geiriad o esemptiadau sy'n gymwys i aelodaeth gyfan y cyrff proffesiynol statudol hynny i broffesiynau a enwyd sy'n cael eu rheoleiddio gan y cyrff hynny, a hynny am fod gan rai o'r cyrff aelodaeth sy'n ehangach na'r



proffesiynau yr hoffem eu hesemptio. Diffinnir y proffesiynau a enwyd yr hoffem eu cynnwys yn ôl y gyfraith mewn perthynas â'u priod gyrrff proffesiynol statudol, felly nid oes unrhyw amwysedd wrth ddehongli.

Rydym hefyd wedi dileu'r gofyniad i driniaeth fod o fewn cwmpas rôl swydd unigolyn er mwyn bod yn gymwys i hawlio esemptiad, a hynny am iddi ddod yn amlwg ar ôl trafodaethau manylach â rhai o'r cyrrff statudol nad ydynt yn pennu rolau swyddi ac nad yw'r rhain yn gyson rhwng cyflogwyr amrywiol ar gyfer pob un o'r teitlau proffesiynol a ystyriwyd o dan ein polisi arfaethedig ynglŷn ag esemptiadau. O ganlyniad, ni fu modd cael diffiniad cyfreithiol o 'o fewn cwmpas' a allai gael ei gymhwyso at yr holl rolau proffesiynol rydym am eu hesemptio.

Nodwn y pwynt nad yw pob un o'r ymarferwyr a fyddai fel arall yn esempt oherwydd natur eu cofrestriad proffesiynol yn gweithredu ar un o fangreoedd y GIG ac nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru eu mangre ag AGIC. Deallwn yr anghysondebau y gallai hyn eu creu rhwng ymarferwyr mewn practis preifat sy'n aelodau o gofrestrau statudol gwahanol, lle mae'n ofynnol i'r naill gofrestru ag AGIC ond nid yw'n ofynnol i'r llall. Fodd bynnag, nid yw mangreoedd ymarferwyr nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru ag AGIC ac sy'n gweithio y tu allan i'r GIG yn cael eu rheoleiddio o gwbl, sy'n creu anghysondeb mwy difrifol yn ein barn ni. Nid oes unrhyw beth yn y Ddeddf sy'n caniatáu i ymarferydd o dan yr amgylchiadau hyn wneud cais i gymeradwyo ei fangre o dan y cynllun mandadol hwn i'w alluogi i hawlio esemptiad ymarferydd drwy ei gofrestrriad proffesiynol. Felly, ni fydd ymarferwyr o'r fath yn esempt a bydd yn rhaid iddynt gael trwydded ymarferydd a thystysgrif cymeradwyo mangre.

Bydd yr esemptiadau diwygiedig ar y telerau canlynol:

- Nid oes unrhyw un o'r pedair triniaeth arbennig a roddir fel rhan o'r GIG yn un o leoliadau'r GIG o fewn cwmpas y cynllun trwyddedu hwn ac felly maent yn esempt.
- Bydd yr esemptiadau yn gymwys i broffesiynau penodol a enwyd sy'n rhan o aelodaeth y cyrrff proffesiynol statudol a restrwyd.
- Ni fydd **ymarferwyr meddygol heb eu trwyddedu, optometryddion, optegwyr cyflenwi, fferyllwyr na thechnegwyr fferyllol** yn cael unrhyw esemptiad i roi unrhyw un o'r pedair triniaeth arbennig a byddai angen iddynt gael trwydded triniaeth arbennig a thystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd pe baent yn dymuno rhoi unrhyw un o'r triniaethau hyn.
- Caniateir i **ymarferwyr meddygol trwyddedig, deintyddion, gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol\*\***, **ciropactyddion, osteopathiaid, bydwragedd a nyrsys a chymdeithion nyrsio\*\*** roi unrhyw un o'r triniaethau arbennig cyhyd â'u bod yn cael eu rhoi mewn mangre gofal iechyd annibynnol a reoleiddir, AC nad ydynt o dan unrhyw gyfyngiadau na sancsiynau gan eu corff proffesiynol.
- Bydd **podiatryddion, ciropodyddion a ffisiotherapyddion** yn cael esemptiad am aciwbigo yn unig, cyhyd â bod y driniaeth yn cael ei rhoi mewn mangre gofal

iechyd annibynnol a reoleiddir, AC nad ydynt o dan unrhyw gyfyngiadau na sancsiynau gan eu corff proffesiynol.

\*\*Mae nifer o deitlau proffesiynol perthynol yn cael eu cydnabod a'u cofrestru gan y cyrff proffesiynol perthnasol. Mae hyn yn cynnwys cymdeithion nyrsio, sef rôl a ddiffinnir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ond sydd ond yn cael ei gydnabod yn Lloegr. Fel proffesiynau gofal iechyd eraill a reoleiddir, gallai cymdeithion nyrsio weithredu yng Nghymru o bosibl y tu allan i gyd-destun y GIG (er enghraifft, mewn lleoliad gofal iechyd preifat a reoleiddir) er nad oes rôl swydd gyffelyb yn GIG Cymru. O ganlyniad, bydd y proffesiwn hwn yn cael ei gynnwys yn y rheoliadau arfaethedig ynglŷn ag unigolion esempt. Pe bai cydymaith nyrsio yn ystyried rhoi triniaethau arbennig yng Nghymru y tu allan i leoliad gofal iechyd preifat a reoleiddir bydd yn ofynnol iddo/iddi gael trwydded triniaeth arbennig a sicrhau bod y fangre lle mae'n gweithredu wedi cael ei chymeradwyo yn unol ag Adran 70 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

Caiff yr esemptiadau diwygiedig hyn eu hamlinellu yn y set briodol o reoliadau drafft.

### **Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig hwn, sef y dylid gwneud rheoliadau o dan adran 69 i weithredu esemptiadau ar fangreoedd lle bydd aelodau esempt o'r cyrff proffesiynol hyn yn ymarfer?**

#### **Trosolwg**

Atebodd 215 y cwestiwn, ac ni wnaeth 35 ei ateb. Atebodd 60 'ydw' a rhoddodd 14 ohonynt ymateb hirach; Atebodd 17 'nac ydw' a rhoddodd 15 ohonynt ymateb hirach; darparodd 138 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

#### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cafwyd cytundeb cyffredinol ynglŷn â'r cynnig, ond roedd nifer yn anghytuno â rhai o'r manylion. Cododd nifer o'r ymatebwyr yr un materion ar y cyfan ynglŷn â'r esemptiadau arfaethedig ag a godwyd yn y cwestiwn blaenorol, ac nid atebwyd y cwestiwn hwn gan nifer o'r ymatebwyr.

Fel yn achos y cwestiwn blaenorol, nododd rhai ffisiotherapyddion â chleientiaid preifat nad oes angen iddynt gofrestru eu mangre ag AGIC o reidrwydd.

Ymddangosai fel petai awdurdodau lleol yn disgwyl y bydd yn rhaid i weithwyr proffesiynol esempt gofrestru â nhw, a holwyd sut y byddai hynny'n gweithio'n ymarferol.

Gofynnodd rhai pam roeddem wedi newid ein polisi ynglŷn â chofrestr y Gymdeithas Safonau Proffesiynol (PSA) i aciwbwyr ac nad oeddem yn eu hesemptio bellach. Ceisiodd nifer o'r cymdeithasau sy'n cynrychioli aciwbwyr ddadlau pam y dylai eu cymdeithas fod wedi'i hesemptio.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Hoffem ddiolch i'r ymatebwyr am nodi'r broblem sy'n codi pe bai angen cofrestrriad ag AGIC, a sut y gall hyn eithrio'n amhriodol rai ymarferwyr preifat a fyddai fel arall yn esempt o bosibl. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr ymateb i gwestiwn 8, pe bai ymarferydd esempt yn gweithredu ar fangre nad yw'n ofynnol iddi gael ei chofrestru ag AGIC, ni fyddai ei fangre yn cael ei rheoleiddio o gwbl i bob diben. Ar ôl cael cyngor cyfreithiol, ni allwn gytuno i ddileu'r gofyniad i fod yn fangre a reoleiddir. Fodd bynnag, rydym wedi newid y gofyniad i un a reoleiddir gan AGIC i sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir, sydd wedi'i ddiffinio'n benodol mewn deddfwriaeth.

Sylweddolwn y bydd y gofyniad hwn yn golygu na all rhai ymarferwyr aciwbigo sydd fel arall yn meddu ar yr aelodaeth broffesiynol statudol angenrheidiol hawlio esemptiad am nad yw eu mangre yn dod o dan y diffiniad o gyfleuster gofal iechyd annibynnol a reoleiddir. Fodd bynnag, ni fu modd cynnig ateb cyfreithiol i'r broblem hon am nad yw geiriad y Ddeddf yn caniatáu hynny. Ni fydd yr ymarferwyr hynny yn cael esemptiad a bydd yn rhaid iddynt wneud cais am drwydded ymarferydd a thystysgrif cymeradwyo mangre gan yr awdurdod lleol.

Bydd unigolion sy'n gymwys i gael esemptiad y tu allan i'r cynllun trwyddedu yn gyfan gwbl am fod y proffesiynau hyn eisoes yn cael eu rheoleiddio'n helaeth. Nid oes unrhyw fframwaith cyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r unigolion hyn roi manylion i awdurdodau lleol, a byddai y tu hwnt i ofynion y Ddeddf i godi ffi arnynt am esemptiad neu i gasglu a chyhoeddi unrhyw fanylion amdanynt yn y gofrestr gyhoeddus.

Ni ellir rhoi esemptiadau cyffredinol i gymdeithasau aciwbigo ar gyfer eu haelodau, am fod nifer o gymdeithasau gwahanol sydd â thelerau ac amodau gwahanol, ac nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol ar unrhyw aciwbigo i fod yn aelod o gymdeithas i weithredu. Byddai esemptio rhai aciwbigo ac nid eraill ar y sail hon yn creu cynllun dwy haen a allai ddrysu'r cyhoedd.

Gellid dadlau bod rhoi esemptiad i broffesiynau sy'n defnyddio aciwbigo yn gwneud yr un peth, ond mater o bwyslais ydyw: gweithwyr iechyd proffesiynol cofrestredig a reoleiddir sy'n defnyddio aciwbigo yw'r rhain. Er enghraifft, byddai ffisiotherapydd siartredig sy'n defnyddio aciwbigo fel rhan o'i waith beunyddiol yn esempt pe bai hefyd yn bodloni'r gofyniad o ran mangre am mai ffisiotherapydd siartredig ydyw, nid am ei fod yn aciwbigo; ond ni all aciwbigo sydd wedi cael hyfforddiant aciwbigo ac nad yw'n ofynnol iddo gael unrhyw gofrestrriad statudol fod yn esempt dim ond am ei fod yn aelod o unrhyw gymdeithas benodol.

Nid ydym wedi newid ein polisi mewn perthynas â chofrestr y PSA. Cymal galluogi yn unig yw'r cyfeiriad yn y Ddeddf at y PSA, yn yr ystyr ei fod yn gwneud darpariaeth i gynnwys esemptiadau ar gyfer y PSA pe bai'r amgylchiadau byth yn caniatáu hynny. Yn ein barn ni, nid yw cofrestr y PSA yn ddigon cadarn i ganiatáu esemptiad, a thrafodir hyn ymhellach o dan y cwestiwn perthnasol.

Yr unig eithriad arall ar gyfer mangre heblaw sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir yw'r eithriad ar gyfer cartref unigolyn sy'n cael triniaeth aciwbigo fel rhan o

ofal lliniarol. Ni fydd unrhyw ddarpariaeth arall yn cael ei gwneud yn y rheoliadau i weithio yng nghartref cleient ar gyfer unrhyw un o'r pedair triniaeth arbennig.

Mae mangreoedd y GIG y tu allan i'r cynllun hwn yn gyfan gwbl ac nid oes angen tystysgrifau cymeradwyo mangre arnynt, felly nid oes gofyniad iddynt gael esemptiadau penodol yn y rheoliadau.

## **Cwestiwn 10: A yw'r egwyddorion hyn i esemptio unigolion a mangreoedd yn gwarchod iechyd a diogelwch y cleient i raddau digonol?**

### **Trosolwg**

Atebodd 215 y cwestiwn, ac ni wnaeth 35 ateb. Atebodd 62 'ydw' a rhoddodd 25 ohonynt ymateb hirach; atebodd 11 'nac ydw' a rhoddodd 8 ohonynt ymateb hirach; darparodd 142 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cafwyd cytundeb cyffredinol bod yr esemptiadau yn gwarchod y cleient i raddau digonol, ond codwyd yr un materion ag a godwyd ar gyfer y ddau gwestiwn blaenorol mewn perthynas â'r dybiaeth y byddai esemptiad yn golygu dim rheoleiddio i'r gweithwyr iechyd proffesiynol hynny.

Holodd rhai a oedd cynorthwyr gofal iechyd wedi'u cynnwys yn yr esemptiadau am eu bod yn cael eu rheoleiddio gan yr un corff â nyrsys.

Ymddangosai fod rhywfaint o ddryswch rhwng cymhwysedd, cymhwyster, a chofrestriad proffesiynol statudol. Ymddangosai fel petai awdurdodau lleol yn enwedig yn awgrymu gofynion ar unigolion nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Ddeddf.

Roedd rhai ymatebwyr yn meddwl bod y cyfeiriad at y PSA yn y Ddeddf wedi rhoi cymeradwyaeth i'r cofrestrau hyn, ac felly roeddent yn holi pam roedd Llywodraeth Cymru wedi newid ei pholisi yn hyn o beth.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Hoffem fod yn hollol eglur ynglŷn â pham mae gweithwyr proffesiynol yn esempt, yn amodol ar yr addasiadau a nodwyd yn ein hymateb i gwestiwn 8. Nid yw esemptiad yn golygu nad yw'r unigolion hyn yn cael eu rheoleiddio o gwbl – maent yn cael eu rheoleiddio'n helaeth fel unigolion gan eu cyrff statudol. Hefyd, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn rheoleiddio'r mangreoedd lle mae llawer o'r gweithwyr proffesiynol hyn yn gweithio. Felly, mae'r unigolyn esempt a'r fangre yn cael eu rheoleiddio.

Yn realistig, y sefyllfa yw mai dim ond aciwbigo a thatwio meddygol a gwmpesir gan yr esemptiad hwn yn ymarferol, sy'n arbenigeddau o fewn y proffesiynau a restrir. Nid yw'n golygu y bydd unrhyw un o'r gweithwyr iechyd proffesiynol hynny yn gallu dechrau rhoi triniaethau tyllu'r corff neu datwio heb hyfforddiant priodol neu

drwydded yn union fel na all tatŵydd masnachol ymarfer meddygaeth heb yr hyfforddiant gofynnol.

Ni allwn ei gwneud yn ofynnol i unigolion sydd wedi cael eu hesemptio ddarparu unrhyw wybodaeth na chymryd unrhyw gamau nad oes fframwaith cyfreithiol yn y Ddeddf ar eu cyfer, gan gynnwys cael eu rhestru ar y gofrestr gyhoeddus neu dalu unrhyw ffi gofrestru. Dylai awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o'r gwaith gweinyddol sylweddol y byddai angen iddynt ei wneud pe baent yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithiwr proffesiynol esempt yn y GIG neu mewn practis preifat sy'n defnyddio aciwbigo ac sy'n gymwys gofrestru eu hesemptiad. Mae hyn ar wahân i unrhyw her gyfreithiol bosibl gan y cyrff proffesiynol hynny pe bai unrhyw ofyniad o'r fath yn cael ei orfodi.

Fel y'i nodir yn ein hymateb i gwestiwn 9, nid ydym wedi newid ein polisi mewn perthynas â chofrestr y PSA i aciwbigwyr, am mai cymal galluogi yw'r cyfeiriad yn y Ddeddf, nad yw'n fodd i roi unrhyw gymeradwyaeth flaenorol i'r gofrestr ac nad yw'n addo unrhyw esemptiadau.

**Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig hwn, sef y dylai'r proffesiynau a enwir sydd ar gofrestr statudol yr HCPC, sef ciropodyddion/podiatryddion; ffisiotherapyddion; prosthetyddion/orthotyddion fod yn esempt? A oes proffesiynau eraill ar y gofrestr hon a ddylai fod yn esempt?**

### **Trosolwg**

Atebodd 209 y cwestiwn, ac ni wnaeth 41 ei ateb. Atebodd 57 'ydw' a rhoddodd 27 ohonynt ymateb hirach; atebodd 39 'nac ydw' a rhoddodd 35 ohonynt ymateb hirach; darparodd 113 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Rhoddodd y mwyafrif o'r ymatebwyr yr un dadleuon eto ynglŷn ag unigolion esempt ag a roddwyd yn yr ychydig gwestiynau diwethaf. Gwnaeth rhai o'r cyrff proffesiynol y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt ddarparu gwybodaeth ynglŷn â sut y gallai'r esemptiad weithredu o ran eu haelodaeth.

Ceisiodd nifer o gymdeithasau sy'n cynrychioli aciwbigwyr ddadlau o blaid rhoi esemptiad iddynt, gan ddefnyddio'r ddadl eu bod wedi eu categoreiddio'n ddarparwyr gofal iechyd.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Byddem yn rhoi'r un ymatebion eto ag a roddwyd i'r cwestiynau blaenorol ynglŷn ag esemptiadau. Gwnaethom restru'r cyrff proffesiynol hyn am ein bod yn ymwybodol bod rhai o'u haelodau yn defnyddio aciwbigo i leddfuo poen neu i gael y claf i ymlacio yn ystod triniaethau meddygol y mae ganddynt gofrestriad proffesiynol ar eu cyfer,

ac mewn rhai byrddau iechyd, y gallai tatwio meddygol ddod o dan ddarpariaeth meddygaeth brosthetig ac orthotig.

Fel y'i nodwyd yn ein hymateb i gwestiwn 8, rydym wedi diwygio geiriad ein cynnig i broffesiynau a enwir o fewn aelodaeth y cyrff statudol hynny a restrir. Nid yw esemptio'r proffesiynau hyn ar gyfer triniaethau penodol yn golygu y byddant yn gweithio heb eu rheoleiddio nac y byddant yn gallu dechrau rhoi unrhyw un o'r triniaethau neu bob un ohonynt am eu bod yn esempt.

Ni dderbyniwn y dadleuon a gyflwynwyd gan aciwbwyr nad ydynt yn aelodau o'r cofrestrau statudol ychwaith. Mae nifer yr ymatebion gan sefydliadau gwahanol sy'n cynrychioli aciwbwyr yn ogystal ag unigolion yn awgrymu inni pa mor ddarniog yw natur y proffesiwn penodol hwn. Yn absenoldeb cofrestru gorfodol sy'n dibynnu ar gymwysterau cyson a chodau ymarfer i aciwbwyr, ni allwn roi esemptiad cyffredinol i'r cyrff hyn. Cyfrifoldeb y proffesiwn aciwbigo yw cydweithio i benderfynu ar y lefel dderbyniol o hyfforddiant ac ymarfer y dylid ei mynnu a phwyso ar Senedd y DU am gofrestru gorfodol.

Gan na chlywsom gan unrhyw brosthetyddion nac orthotyddion fel rhan o'r ymgynghoriad, gwnaethom ymholiadau ar wahân gyda Chymdeithas Prosthetyddion ac Orthotyddion Prydain (BAPO). Mae wedi cadarnhau nad oes unrhyw un o'r pedair triniaeth arbennig yn gysylltiedig â'r gwasanaethau gofal iechyd a gynigir gan ei haelodau ac felly nad ydynt wedi cael yr hyfforddiant nac wedi datblygu'r sgiliau i'w cynnig. Felly, mae o'r farn na fyddai angen esemptio ei haelodau rhag rhoi unrhyw un o'r pedair triniaeth arbennig. Byddwn yn cyfyngu ar eu hesemptiad yn unol â hynny yn y rheoliadau drafft.

Mae'r proffesiynau ar restr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal sy'n berthnasol i'r esemptiad sydd ar gael fel a ganlyn:

- ciropodyddion/podiatryddion
- ffisiotherapyddion

Rydym wedi gwneud darpariaeth ar gyfer y proffesiynau hyn a enwir yn yr esemptiad ar gyfer aciwbigo ar yr un telerau ag a nodwyd ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gofrestredig yn statudol.

- Rhoddir y driniaeth mewn sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir AC
- Nid ydynt yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau na sancsiynau a osodir gan eu corff rheoleiddio statudol.

Bydd unrhyw driniaeth a ddarperir gan y GIG y tu allan i gwmpas y Ddeddf ac felly'n esempt.

Bydd yn rhaid i unrhyw aciwbwyr arall nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestriad statudol na mangre a reoleiddir er mwyn cael esemptiad gael trwydded triniaeth arbennig a thystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd ar gyfer triniaeth arbennig er mwyn cynnig aciwbigo neu unrhyw un o'r tair triniaeth arbennig arall.

Bydd yn rhaid i unrhyw weithiwr proffesiynol gofal iechyd a reoleiddir sy'n esempt o ran aciwbigo ond sydd am roi unrhyw un o'r tair triniaeth arbennig arall – tyllu'r corff, electrolysis, neu datwio – gael trwydded triniaeth arbennig a thystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd ar gyfer triniaeth arbennig (os yw'n briodol).

Rydym yn ymwybodol bod proffesiynau eraill ar gofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal y mae eu haelodau o bosibl yn defnyddio aciwbigo fel rhan o'r gwasanaethau therapiwtig a ddarperir ganddynt, megis seicolegwyr neu ddeietegwyr sy'n defnyddio aciwbigo fel rhan o driniaeth i'r rhai sy'n gaeth i sylweddau neu sydd ag anhwylderau bwyta. Nid ydym wedi eu cynnwys mewn unrhyw gynigion ar gyfer esemptiad am fod eu hyfforddiant yn annhebygol o fod wedi cynnwys atal a rheoli heintiau yn ein barn ni. Bydd angen i unrhyw ymarferwyr o'r fath sy'n defnyddio aciwbigo yn y ffordd hon wneud cais am drwydded ymarferydd a thystysgrif cymeradwyo mangre a chael y rhain.

## **Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig na ddylai aelodau o gofrestrau gwirfoddol wedi'u hachredu gan y PSA fod yn esempt?**

### **Trosolwg**

Atebodd 210 y cwestiwn, ac ni wnaeth 40 ei ateb. Atebodd 91 'ydw' a rhoddodd 35 ohonynt ymateb hirach; atebodd 41 'nac ydw' a rhoddodd 32 ohonynt ymateb hirach; darparodd 78 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r cynnig hwn, heblaw'r aciwbigwyr, a gynigiodd nifer o ddatleuon o blaid esemptio eu cymdeithas broffesiynol benodol. Roedd rhai ymatebwyr wedi tybio bod y cyfeiriad at gofrestrau'r PSA yn y Ddeddf yn golygu bod esemptiad wedi cael ei roi ac roeddent yn holi pam roedd Llywodraeth Cymru wedi newid ei pholisi.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn cydnabod mai un o'r rhesymau dros ddatblygu cofrestr y PSA oedd nad oedd aciwbigwyr yn cael eu rheoleiddio o gwbl, a bod y cofrestriad gwirfoddol hwn wedi rhoi rhywfaint o gysondeb o ran cymwysterau ac ymarfer. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad mandadol i unrhyw aciwbigwr fod yn aelod o'r gofrestr nac unrhyw gymdeithas broffesiynol. Am y rhesymau hyn, ni allwn roi esemptiad i aciwbigwyr sydd ar restr y PSA. Nodwn nad yw rhai o'r cyrff sy'n dadlau y dylent fod wedi'u hesemptio yn aelodau o gofrestr y PSA, ac felly byddem yn cwestiynu pam y byddent yn eirioli dros esemptiad i'w haelodaeth er nad ydynt yn aelodau eu hunain.

Diben y cyfeiriad yn y Ddeddf at y PSA yw ein galluogi i roi esemptiad, pe bai'r amgylchiadau yn y dyfodol yn caniatáu hynny. Rydym wedi ystyried y gofynion ar gyfer cofrestru ar gofrestr y PSA a sut mae'r rhain yn gymwys i aciwbigwyr, ac am ei bod yn dal yn wirfoddol, ni allwn roi esemptiad i'r aelodaeth ar hyn o bryd. Felly, ni

fwriadwn wneud unrhyw ddarpariaeth mewn rheoliadau mewn perthynas â chofrestr y PSA.

### **Cwestiwn 13: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch yr amodau trwyddedu mandadol enghreifftiol ar gyfer yr holl driniaethau arbennig, fel y'u nodir yn Atodiad CH1?**

#### **Trosolwg**

Atebodd 95 y cwestiwn a rhoi ymatebion manwl ond ni roddodd 155 ymateb i'r cwestiwn.

#### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cyflwynodd nifer o'r ymatebwyr sylwadau manwl ar yr amodau mandadol enghreifftiol, gan godi ymholiadau ynglŷn â'u dehongli a gwneud sylwadau ynglŷn â'r amodau ar gyfer practisau cymeradwy yn eu sector. Cododd nifer o'r ymatebwyr wrthwynebiadau ynglŷn â'r defnydd o systemau gynnu a chetris tyllu; cododd aciwbwyr wrthwynebiadau ynglŷn â gwahardd triniaethau i bobl ifanc o dan 18 oed ar rannau personol o'r corff. Cyflwynwyd nifer o sylwadau yn nodi nad oedd yr amodau arfaethedig yn gymesur â'r risg wirioneddol a achosir a bod angen iddynt adlewyrchu arferion gorau gwirioneddol yn well.

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym wedi ystyried yr awgrymiadau manwl a wnaed ac wedi diwygio'r amodau mandadol yn unol â hynny. Caiff canllawiau anstatudol eu darparu maes o law i ymarferwyr ac i swyddogion gorfodi. Byddant yn cwmpasu'r gofynion penodol ar bob sector er mwyn bodloni'r amodau mandadol.

Fel y nodir yn yr adran o'r ddogfen hon sy'n ymwneud â 'Materion Cyffredinol', nid oes modd inni wahardd y defnydd o ynnau tyllu yn gyfan gwbl, ond bwriadwn ei gwneud yn ofynnol i'r busnesau hynny sy'n defnyddio'r math hwn o gyfarpar fodloni'r un gofynion trwyddedu â phob math arall o ymarferydd sy'n tyllu'r corff, gan gynnwys y gofyniad o ran oedran ymarferwyr a chymhwyster Lefel 2, ymgynghori â'r cleient ac ardal drin ddynodedig. Bydd hyn yn sicrhau dull gweithredu mwy cadarn o ymdrin â hyfforddiant a chysondeb o ran defnydd staff i'r rhai sy'n parhau i ddefnyddio'r cyfarpar hwn.



**Cwestiwn 14: Ydych chi'n cytuno bod yr amodau trwyddedu mandadol penodol yn Atodiad CH1 yn gymesur â'r risgiau a gyflwynir gan bob math o driniaeth arbennig?**

**Trosolwg**

Atebodd 210 y cwestiwn, ac ni wnaeth 40 ei ateb. Atebodd 135 'ydw' a rhoddodd 78 ohonynt ymateb hirach; atebodd 25 'nac ydw' a rhoddodd 22 ohonynt ymateb hirach; darparodd 50 ymatebion manwl heb roi ateb pendant.

**Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Roedd y mwyafrif yn cytuno â'r cynigion ar y cyfan a gwnaethant sylwadau ar amodau penodol. Fel yn achos y cwestiwn blaenorol, cafwyd nifer o ymatebion manwl, ac mewn rhai achosion, codwyd amheuron ynghylch pa mor gymesur oedd y gofynion yng nghyd-destun y risg sy'n codi, yn enwedig mewn perthynas ag aciwbigo ac electrolysis. Holodd rhai ymatebwyr ynglŷn â sut y dylid ymdrin â babanod a phlant sy'n rhy ifanc i gydsynio wrth ymgynghori â'r cleient.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nodwn y sylwadau manwl a wnaed ar y dogfennau yn Atodiad Ch1 a byddwn yn defnyddio'r rhain i lywio'r fersiynau terfynol o'r amodau mandadol a'r canllawiau anstatudol. Ein bwriad yw y bydd y gofyniad ynglŷn ag ymgynghori â'r cleient a'r canllawiau cysylltiedig yn cwmpasu cydsyniad rhieni a gwarcheidwaid yn ogystal â sut y dylid ymdrin â chydsyniad pobl ifanc dan oed.

**Cwestiwn 15: Ydych chi'n cytuno bod creu trwydded hyfforddai yn ffordd gymesur o ymdrin â hyfforddeion ar gyrsiau rheoleiddiedig a phrentisiaid sy'n dilyn cynlluniau prentisiaeth rheoleiddiedig ac anrheoleiddiedig? Os nad ydych chi'n cytuno, sut y dylid ymdrin â hyn?**

**Trosolwg**

Atebodd 219 y cwestiwn, ac ni wnaeth 31 ei ateb. Atebodd 179 'ydw' a rhoddodd 48 ohonynt ymateb hirach; atebodd 9 'nac ydw' a rhoddodd 7 ohonynt ymateb hirach; darparodd 31 ymatebion manwl heb roi ateb pendant.

**Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cafwyd cytundeb cyffredinol â'r cynnig, gyda nifer o ymholiadau ynglŷn â'r manylion, megis diffiniadau o ba gyrsiau hyfforddiant a fyddai'n ddarostyngedig i'r math hwn o drwydded, a sut y byddai 'goruchwylio' yn cael ei ddiffinio. Codwyd pryderon gan rai ymatebwyr y byddai angen cael trwydded hyfforddai ar gyfer pob DDP y mae ymarferydd yn ei ddilyn ac, ar y llaw arall, y byddai'n rhaid iddi fod ar waith am dair blwyddyn lawn er y byddai'r hyfforddai yn cymwysu o fewn y cyfnod hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Gwnaethom y cynnig hwn yn bennaf i ddarparu ar gyfer yr unigolion hynny sy'n dilyn prentisiaethau a hyfforddiant anrheoleiddiedig ym maes tatwio a thyllu'r corff mewn busnesau masnachol sy'n bodoli eisoes. Yn ein barn ni, pe na bai rhyw faith o wahaniaethu, byddai prentisiaid/hyfforddeion fel arall yn gymwys i gael trwyddedau llawn ochr yn ochr ag ymarferwyr profiadol i bob diben ac y byddent yn ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus fel unigolion â thrwydded llawn. Nid oes unrhyw ddarpariaeth benodol yn y Ddeddf ar gyfer 'trwydded hyfforddai', ond gallwn, drwy reoliadau, gymhwyso amodau trwyddedu pwrpasol at hyfforddeion/prentisiaid sy'n cael eu goruchwylio a thrwy hynny osod cyfyngiadau ar eu trwydded. Mae hwn yn bwynt eithaf cymhleth ynglŷn â diffiniad cyfreithiol ac rydym yn ystyried sut y gallwn reoli unigolion sy'n dysgu eu crefft mewn ffordd gymesur a sicrhau bod y cleient yn cael ei ddiogelu i raddau digonol, gan gynnwys nodi eu statws yn hyfforddai ar y gofrestr gyhoeddus.

Dim ond ar yr adeg y byddent yn gweithio ar gleientiaid o dan oruchwyliaeth y byddai angen trwydded ar brentis/hyfforddai sy'n cynnwys amodau goruchwylio ychwanegol i adlewyrchu eu statws yn 'hyfforddai'. Bydd yn rhaid iddynt fodloni'r holl ofynion eraill o hyd er mwyn gwneud cais am drwydded ymarferydd triniaeth arbennig.

Ni fu'n fwiad gennym erioed y byddai'n rhaid i unrhyw ymarferydd sefydledig wneud cais am drwydded hyfforddai i ddilyn unrhyw gwrs DPP byrdymor. Er y bydd y drwydded y gwneir cais amdani yn para am dair blynedd ac y bydd yn cynnwys amodau ychwanegol, y person sy'n goruchwylio'r hyfforddai fydd yn gyfrifol am ardystio pan fydd yr hyfforddai yn gallu rhoi'r driniaeth heb oruchwyliaeth. Ar yr adeg honno, gall yr hyfforddai wneud cais i ddileu'r cyfyngiadau o ran goruchwyliaeth ar ei drwydded, felly gallai hyn ddigwydd unrhyw bryd yn ystod y cyfnod dyroddi o dair blynedd.

Nodwn y sylwadau y gallai rhywun adnewyddu ei drwydded hyfforddai am gyfnod amhenodol, a byddem yn nodi, er y gallai hyn ddigwydd mewn theori, na fyddai unrhyw un yn cael mantais ariannol na mantais arall o wneud hynny. Yn wir, gallai fwrw amheuaeth ar allu cyffredinol y goruchwylwr a'r hyfforddai pe bai hyn yn digwydd mewn gwirionedd.

Ni fydd yn ofynnol i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau hyfforddiant rheoleiddiedig mewn colegau addysg bellach gael trwydded nes eu bod yn cymhwyso ac yn bwriadu rhoi'r driniaeth arbennig wrth gynnal busnes. Unwaith y byddant wedi cymhwyso, maent yn peidio â bod yn hyfforddeion ac felly byddant yn gwneud cais safonol. Rydym wedi cael ein hysbysu gan golegau addysg bellach nad oes unrhyw broblem yn codi o ran myfyrwyr sy'n cymhwyso cyn eu bod yn 18 oed. Rydym wedi cael ein hysbysu y gallai amgylchiadau godi lle y bydd angen trwydded hyfforddai o bosibl ar fyfyrwr addysg bellach sy'n cael ei ryddhau ar gyfer diwrnod astudio mewn lleoliad gwaith, ond byddwn yn rhoi arweiniad pellach ar hyn.

## **Cwestiwn 16: Ydych chi'n cytuno y dylid pennu 18 oed fel yr isafswm oedran i ymarferydd roi unrhyw un o'r triniaethau arbennig?**

### **Trosolwg**

Atebodd 225 y cwestiwn, ac ni wnaeth 25 ei ateb. Atebodd 206 'ydw' a rhoddodd 42 ohonynt ymateb hirach; atebodd 7 'nac ydw' a rhoddodd pob ohonynt ymateb hirach; darparodd 12 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn. Roedd cadwyni manwerthu sy'n cynnig triniaeth tyllu'r clustiau â systemau gwn neu getrisen yn gwrthwynebu, gan nodi y bydd yn rhaid iddynt ailystyried cyflogi pobl ifanc 16-18 oed. Mynegwyd rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â phobl ifanc o dan 18 oed sy'n dilyn cyrsiau hyfforddiant addysg bellach.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Oherwydd cefnogaeth y mwyafrif llethol i'r cynnig hwn, byddwn yn parhau ag ef fel y'i drafftiwyd ac yn pennu 18 oed fel yr isafswm oedran i wneud cais am drwydded ymarferydd triniaeth arbennig. Rydym wedi cael trafodaethau â cholegau addysg bellach ar fater isafswm oedran cymhwys, ac maent wedi dweud nad yw hyn yn achosi problem o ran y triniaethau arbennig sy'n cael eu haddysgu yn y sefydliadau addysgol hyn. Cyfeiriwn at ein hymateb i gwestiwn 15 ar y mater hwn.

Byddem yn gwrthod yn gryf y ddadl na fyddai pobl ifanc 16-18 oed yn cael eu cyflogi mewn cadwyni manwerthu o ganlyniad i bennu 18 oed fel yr isafswm oedran ar gyfer ymarferwyr am na allant dyllu clustiau. Rydym ar ddeall o'u hymatebion nad oes fawr ddim cyflogeion yn y grŵp oedran hwn o'u hystyried fel canran o'u gweithlu cyffredinol, a'u bod yn cael eu cyflogi fel cynorthwyyr siop yn bennaf, gyda'r driniaeth tyllu'r clustiau yn dasg ychwanegol at eu dyletswyddau manwerthu. Mae gennym bryderon bod cynorthwyyr manwerthu o dan 18 oed sy'n gweithio'n achlysurol, ar y penwythnos neu'n rhan amser yn cael y cyfrifoldeb am roi unrhyw driniaeth arbennig. Mae tyllu'r clustiau yn peri'r risg o haint ac effeithiau andwyol eraill ar iechyd, p'un a yw'r driniaeth yn cael ei rhoi drwy ddefnyddio systemau cetrus neu nodwyddau untro wedi'u diheintio. Er mwyn addysgu ac ymgysylltu â chleientiaid yn briodol a hefyd ymgynghori'n fanwl â nhw mae angen lefel o aeddfedrwydd sydd fwyaf tebygol o gael ei weld ymhlith pobl 18 oed ac yn hŷn. Felly bwriadwn fwrw ymlaen â'r cynnig hwn fel y'i drafftiwyd.

## **Cwestiwn 17: Ydych chi'n cytuno y dylid pennu 18 oed fel yr isafswm oedran i gleient gael unrhyw un o'r triniaethau arbennig (ar wahân i'r eithriadau arfaethedig a restrwyd?)**

### **Trosolwg**

Atebodd 217 y cwestiwn, ac ni wnaeth 33 ei ateb. Atebodd 168 'ydw' a rhoddodd 82 ohonynt ymateb hirach; atebodd 33 'nac ydw' a rhoddodd 31 ohonynt ymateb hirach; darparodd 16 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cafwyd cefnogaeth eang i'r cynnig hwn, ond nid oedd pawb yn cytuno â phennu'r isafswm oedran yn 18 oed. Dadleuodd nifer o dyllwyr y corff o blaid lleihau'r isafswm oedran ar gyfer rhai mathau o dyllu rhannau o'r corff heblaw rhannau personol ac roedd rhai aciwbwyr yn pryderu na fyddent yn gallu trin unrhyw blentyn o dan 18 oed. Cododd rhai awdurdodau lleol bryderon ynglŷn â chanlyniadau anfwriadol pennu 18 oed fel yr isafswm oedran a chynigiodd rhai y dylid ystyried isafswm oedran o 21 neu 25 oed ar gyfer tatŵs ar yr wyneb. Cododd nifer o'r ymarferwyr fater cymhwysedd Gillick\* hefyd, gan wneud gwrthgynigion y dylid pennu'r isafswm oedran yn 16 oed heb gydsyniad rhiant, lle y tybid bod y person yn meddu ar gymhwysedd Gillick, a chyfeiriwyd at driniaeth gan y GIG fel cymharydd.

\*Egwyddor gydnabyddedig ym maes cyfraith feddygol yw cymhwysedd Gillick, lle y tybir bod plentyn o dan 16 oed sy'n dangos dealltwriaeth ddigonol o oblygiadau triniaeth 'yn gymwys' i gydsynio ei hun heb ymwneud pellach gan ei rieni/gwarcheidwaid. Mae wedi'i enwi ar ôl achos cyfreithiol Gillick v West Norfolk and Wisbech Area Health Authority a sefydlodd yr egwyddor. [Consent to treatment - Children and young people - NHS \(www.nhs.uk\)](https://www.nhs.uk/child-health/consent-to-treatment-children-and-young-people/)

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn cydnabod y gwahanol resymeg dros yr ymatebion cymysg a gawsom ac yn cytuno'n rhannol â'r cyfeiriad at gymhwysedd Gillick, sy'n gosod cynsail. Ni wnaethom gynnig na all unrhyw un o dan 18 oed gael triniaeth aciwbigo: rydym wedi dweud y gall unrhyw berson ifanc o dan 18 oed gael triniaeth aciwbigo ar rannau o'r corff heblaw rhannau personol gyda chydsyniad rhiant yn ogystal â chydsyniad y person ifanc, a chyhyd â bod hebryngwr yn bresennol yn ystod y driniaeth.

Nodwn yr amrywiaeth o awgrymiadau ar gyfer cyfyngiadau oedran gwahanol ar gyfer triniaethau gwahanol/rhannau gwahanol o'r corff ond, yn ein barn ni, mae nifer o'r rhain yn mynd yn groes i'w gilydd, a phe baem yn mabwysiadu hyn, byddai'n creu fframwaith diangen o gymhleth a fyddai'n ddryslyd ac yn anaddas o safbwynt cydymffurfiaeth. Rydym yn ymwybodol o'r potensial i achosi canlyniadau anfwriadol a all ddeillio o osod cyfyngiadau isafswm oedran ond rydym o'r farn bod angen cydbwysu hyn â diogelu pobl ifanc mewn ffordd gymesur.

Rydym hefyd o'r farn bod y gofyniad caeth yn y Ddeddf o ran ymgynghori â'r cleient a'r amodau trwyddedu arfaethedig cysylltiedig yn cynnig camau lliniaru ychwanegol i ddiogelu cleientiaid yn well a'u galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus

ynglŷn â'r driniaeth arbennig y byddent yn ei chael. Hefyd, mae ymarferwyr wedi dweud y byddant yn gweithio'n unol â gofynion eu hyswiriant a all eu hatal rhag rhoi triniaethau i grwpiau oedran penodol.

Ar ôl ystyried yr ymatebion hyn, rydym wedi diwygio'r cynnig i bennu 16 oed fel yr isafswm oedran i gleientiaid gael triniaethau tyllu'r corff, aciwbigo, neu electrolysis ar rannau o'r corff heblaw rhannau personol heb gydsyniad rhiant. Mae'r gwaharddiadau cyfreithiol ar datwio (gan gynnwys lliwio'r corff yn lled-barhaol) a thyllu rhannau personol o'r corff yn dal ar waith i bobl o dan 18 oed.

Os bydd unrhyw blentyn o dan 16 oed am gael triniaeth aciwbigo, electrolysis neu dyllu'r corff ar rannau o'r corff heblaw rhannau personol, bydd angen i'w riant/gwarcheidwad fod yn bresennol yn ystod yr ymgynghoriad â'r cleient, rhoi cydsyniad yn ysgrifenedig a bod yn bresennol yn ystod y driniaeth fel hebryngwr.

Ni all unrhyw un o dan 18 oed gael unrhyw un o'r triniaethau arbennig ar rannau personol o'r corff, hyd yn oed gyda chydsyniad rhiant, oni bai bod ymarferydd meddygol wedi rhagnodi'r driniaeth.

### **Cwestiwn 18: Ydych chi'n cytuno bod yr hyn a amlinellwyd o ran cydsyniad a phresenoldeb rhiant/gwarcheidwad ar gyfer triniaethau nad ydynt wedi'u gwahardd i rai dan 18 oed yn fesurau diogelu digonol?**

#### **Trosolwg**

Atebodd 215 y cwestiwn, ac ni wnaeth 35 ateb. Atebodd 160 'ydw' a rhoddodd 23 ohonynt ymateb hirach; atebodd 7 'nac ydw' a rhoddodd 5 ohonynt ymateb hirach; darparodd 48 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

#### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn, ond rhywfaint o anghytuno ynglŷn â'r oedran pan na ddylai cydsyniad rhiant fod yn ofynnol mwyach. Nododd aelodau o'r sector tyllu'r corff, yn enwedig, heriau o ran cydsyniad rhiant. Cododd rhai y cwestiwn ynglŷn â babanod a phlant sy'n rhy ifanc i gydsynio, a sut y dylid ymdrin â'r rhain.

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym wedi nodi'r materion a godwyd gan datwlyddion a thyllwyr mewn perthynas â chydsyniad rhiant ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed a nodwn eu sylwadau ar yr anghenraid i'r cleient a'r rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol roi prawf adnabod.

Cyfeiriwn at ein hymateb i gwestiwn 17 a'n bwriad yw pennu'r isafswm oedran i gleient roi ei gydsyniad ei hun i driniaeth nad yw wedi'i gwahardd fel arall o dan 16 oed. Felly, rydym wedi diwygio'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i'r rhiant/gwarcheidwad fod yn bresennol yn ystod yr ymgynghoriad â'r cleient er mwyn rhoi cydsyniad ar ran unrhyw un o dan 16 oed ac i'r rhiant neu'r gwarcheidwad

cyfreithiol hwnnw fod yn bresennol yn ystod y driniaeth. Bydd y gofyniad hwn ond yn ymwneud â thyllu'r corff, electrolysis, ac aciwbigo ar rannau o'r corff heblaw rhannau personol. Mae tatŵio, gan gynnwys lliwio'r corff yn lled-barhaol, eisoes wedi'i wahardd o dan y gyfraith ar bobl ifanc o dan 18 oed.

Ni all unrhyw un o dan 18 oed gael unrhyw un o'r triniaethau arbennig ar rannau personol o'r corff, hyd yn oed gyda chydsyniad rhiant, oni bai bod ymarferydd meddygol wedi rhagnodi'r driniaeth.

Byddwn yn darparu canllawiau anstatudol i ymarferwyr ar y mater hwn a fydd yn cynnwys gwybodaeth i rieni fel modd i godi eu hymwybyddiaeth o ofynion cyfreithiol y cynllun trwyddedu.

### **Cwestiwn 19: Ydych chi'n cytuno bod 16 yn oedran priodol i rywun gael twll yn yr ael, y wefus, y trwyn neu gartilag y glust heb gydsyniad rhiant/gwarcheidwad?**

#### **Trosolwg**

Atebodd 205 y cwestiwn, ac ni wnaeth 45 ateb. Atebodd 136 'ydw' a rhoddodd 16 ohonynt ymateb hirach; atebodd 19 'nac ydw' a rhoddodd 13 ohonynt ymateb hirach; darparodd 50 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

#### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cymysg fu'r farn yn yr ymatebion o ran yr oedran mwyaf priodol i berson gael twll o'r fath, yn amrywio o 14 oed hyd at 18 oed. Cafwyd cytundeb cyffredinol bod 16 oed yn oedran priodol ar gyfer y clustiau, ond roedd gwahaniaeth barn a ddylid cynnwys gwefusau ac aeliau. Ymddangosai fod rhai yn camsynio bod y cynnig yn golygu na fyddai tyllu'r clustiau yn cael ei ganiatáu o gwbl o dan 16 oed, ac mewn gwirionedd awgrymodd y manwerthwyr mawr mai 14 oed oedd safon y diwydiant.

Ni chafwyd consensws amlwg ymhlith yr awdurdodau lleol, a awgrymodd gyfyngiadau oedran gwahanol ar gyfer y rhannau gwahanol o'r corff a enwyd. Ymddangosai fod mwy o bryderon ynglŷn â thyllu'r bogail na thyllu rhannau o'r wyneb.

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'n dda gennym nodi bod cytundeb cyffredinol ynglŷn ag egwyddor pennu terfyn oedran ond roedd yn achos pryder inni nad oes unrhyw gonsensws gwirioneddol ynglŷn â thyllu rhannau o'r wyneb. Rydym wedi trafod y mater hwn yn fanylach â thyllwyr y corff ac awdurdodau lleol, yn enwedig mewn perthynas â'r risgiau a'r amseroedd gwella sy'n gysylltiedig â manau tyllu penodol ar y corff a'r tebygolrwydd y byddai pobl ifanc yn dewis tyllu eu corff eu hunain pe na allent gael y driniaeth yn gyfreithlon. Hefyd, mynegwyd y dymuniad i gadw cyfyngiadau isafswm oedran yn syml.

Hoffem ei gwneud yn eglur nad yw isafswm oedran o 16 oed i rywun gael twll o'r fath yn golygu na fyddai unrhyw dyllu yn cael ei ganiatáu o dan 16 oed – nid yw hyn yn wir. Cynigiwyd y dylid pennu 16 oed fel yr oedran pan na fyddai angen cydsyniad rhiant mwyach. Gall rhiant gydsynio i unrhyw driniaeth tyllu'r corff ar berson o dan yr oedran a bennir ar yr amod nad yw wedi'i gwahardd i bobl ifanc o dan 18 oed gan y rheoliadau ynglŷn â thyllu rhannau personol o'r corff.

Nid ydym yn derbyn y ddadl bod 14 oed yn oedran priodol i gael gwared ar gydsyniad rhiant yn gyffredinol. Nodwn y dadleuon ynglŷn â'r posibilrwydd y bydd plant dan oed yn tyllu eu bogail eu hunain oherwydd y gofyniad i gael cydsyniad rhiant, ond nid ydym yn argyhoeddedig bod hon yn broblem arbennig.

Ar ôl ystyried yr holl faterion isod, rydym yn cadarnhau ein bwriad i fwrw ymlaen â'r cynnig fel y'i drafftiwyd a chynnwys y triniaethau hyn i dyllu rhannau o'r wyneb o fewn isafswm oedran o 16 oed i gleientiaid sydd am gael unrhyw driniaeth i dyllu rhan o'r corff heblaw rhannau personol heb gydsyniad rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol.

## **Cwestiwn 20: A ddylid caniatáu tyllau ar unrhyw ran arall o'r wyneb o'r adeg pan fydd rhywun yn 16 oed? Os felly, pam?**

### **Trosolwg**

Atebodd 189 y cwestiwn, ac ni wnaeth 61 ei ateb. Atebodd 40 'dylid', a rhoddodd 33 ohonynt ymateb hirach; atebodd 133 'na ddylid', a rhoddodd 96 ohonynt ymateb hirach; darparodd 16 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cafwyd consensws cyffredinol na ddylid caniatáu tyllu rhannau o'r wyneb o dan 18 oed ond nid oedd gan nifer a ymatebodd i'r perwyl hwn unrhyw gysylltiad â thyllu'r corff. Cafwyd gwahaniaeth barn rhwng tyllwyr, gyda rhai yn mynegi'r farn nad oedd mwy o risg o greithio nac anghymeradwyo yn gysylltiedig â thyllu rhannau eraill o'r wyneb nas cyfeiriwyd atynt yn y cwestiwn blaenorol, ond roedd eraill yn credu i'r gwrthwyneb. Awgrymodd nifer fod tyllu'r foch yn peri risgiau penodol. Roedd gwahaniaeth barn rhwng awdurdodau lleol ynglŷn â thriniaethau tyllu penodol ac ar y cyfan roeddent yn cefnogi'r cynnig ond roeddent yn pryderu am bobl ifanc yn ceisio tyllu rhannau o'r wyneb eu hunain.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nodwn y consensws cyffredinol na ddylid caniatáu tyllu rhannau o'r wyneb heblaw'r trwyn heb gydsyniad rhiant a bod y mwyafrif wedi dweud y dylid pennu'r terfyn oedran isaf yn 18 oed. Mae nifer o'r ymatebion a roddwyd i'r cwestiwn hwn yn gwrthddweud ymatebion a roddwyd yn flaenorol i gwestiwn 19 ynglŷn â thyllu'r rhannau gwahanol o'r wyneb y cyfeiriwyd arnynt.

Rydym yn cydnabod y pryderon am bobl ifanc yn ceisio tyllu rhannau o'r wyneb eu hunain ac rydym hefyd yn ymwybodol y gall pobl ifanc ddefnyddio gwasanaethau unigolion sy'n dewis gweithio'n anghyfreithlon, a all eu hamlygu i heintiau a materion diogelu. Mae'r rhain yn risgiau posibl pwysig y mae'n rhaid inni eu hystyried.

Cymysg fu'r farn ynglŷn â'r risgiau posibl o greithio, symud ac anghymeradwyo ac, yn ein barn ni, mae'n debygol y byddai llai o risg pe bai triniaeth yn cael ei rhoi gan ymarferydd trwyddedig mewn mangre gymeradwy ar ôl ymgynghori â'r cleient a rhoi cyngor ôl-ofal. Bydd y gofyniad i ymgynghori â'r cleient ar wahân i'r driniaeth yn ei gwneud yn bosibl i gleientiaid o bob oedran wneud penderfyniadau mwy gwybodus a llai byrbwyll am dyllu rhannau o'r wyneb.

Yn ein barn ni, byddai unrhyw ymgais i restru mathau penodol o dyllau ar yr wyneb a gosod cyfyngiadau isafswm oedran gwahanol yn ddryslyd i ymarferwyr ac yn heriol i'w gweinyddu a'i gorfodi.

At ei gilydd, ac ar ôl ystyried yr holl ddadleuon ynglŷn â 18 oed a 16 oed, rydym o'r farn y dylem gynnwys pob math o dyllau ar yr wyneb yn y cynigion cyffredinol er mwyn caniatáu pob math o dyllu'r corff heblaw rhannau personol o 16 oed heb orfod cael cydsyniad rhiant.

**Cwestiwn 21: Ydych chi'n cytuno bod gwahardd tatŵio pelen y llygad yn yr amodau trwyddedu tatŵio yn ddigonol i atal ymarferwyr trwyddedig rhag rhoi'r driniaeth honno?**

### **Trosolwg**

Atebodd 170 y cwestiwn, ac ni wnaeth 80 ei ateb. Atebodd 141 'ydw' a rhoddodd 22 ohonynt ymateb hirach; atebodd 7 'nac ydw' a rhoddodd 4 ohonynt ymateb hirach; darparodd 22 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Roedd bron pawb yn cytuno â'r cynnig hwn. Nododd nifer o datŵyddion nad tatŵio oedd yr arfer hwn yn dechnegol am ei fod yn cynnwys chwistrellu inc i mewn i'r llygad. Nodwyd ganddynt hefyd y bydd rhywun bob amser sydd am gael y driniaeth hon, a rhywun sy'n barod i'w darparu.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn cydnabod y sylwadau ynglŷn â disgrifio'r driniaeth hon fel tatŵio, ond byddem yn cynghori bod tatŵio wedi'i ddiffinio yn y Ddeddf fel '**mewnosod mewn priciau a wnaed yng nghroen, neu ym mhilen fwcaidd, unigolyn unrhyw ddeunydd sy'n lliwio a ddyluniwyd i adael marc lled-barhaol neu barhaol**'. Felly mae chwistrellu lliw neu ddeunydd lliwio arall i mewn i'r sglera yn unol â'r diffiniad hwn o 'tatŵio'.



Gwnaethom gynnwys y cwestiwn hwn oherwydd, ar adeg pasio'r Ddeddf yn 2017, yr ymddangosai fel petai'r driniaeth hon yn cael sylw yn rheolaidd yn y cyfryngau ac yn dod yn fwy cyffredin. Roedd Gweinidogion Cymru yn pryderu, a hynny'n hollol gyfiawn, yr ymddangosai fel petai hon yn duedd a oedd yn dod yn fwyfwy poblogaidd, ac felly gwnaethant ymrwymiad i'r Senedd y byddent yn cynnwys y driniaeth hon o fewn gwaharddiadau cyffredinol y Ddeddf. Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys gofyn y cwestiwn hwn. Nodwn hefyd y sylwadau nad oes modd gwahardd yr arfer hwn yn gyfan gwbl, am ei fod eisoes yn arfer anghyfreithlon. Nodwn hefyd, ers 2017, nad yw'r driniaeth hon wedi dod yn arbennig o gyffredin.

Felly, ni fwriadwn greu rheoliadau penodol mewn perthynas â tatwïo/liwio pelen y llygad ond byddwn yn ymdrin â'r gwaharddiad hwn o dan yr amodau trwyddedu mandadol.

**Cwestiwn 22: A yw'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol mewn amodau trwyddedu fod ymarferwyr yn trafod effaith triniaethau wyneb a thriniaethau gweladwy eraill â chleientiaid ac yn cofnodi'r drafodaeth yn ddigonol i fynd i'r afael â'r pryderon?**

### **Trosolwg**

Atebodd 209 y cwestiwn, ac ni wnaeth 41 ei ateb. Atebodd 146 'ydy', a rhoddodd 29 ohonynt ymateb hirach; atebodd 29 'nac ydy', a rhoddodd pob un ohonynt ymateb hirach; darparodd 34 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cytunodd y mwyafrif â'r cynnig hwn, ac eithrio tatwïyddion a thyllwyr y corff, a oedd wedi'u rhannu rhwng safbwyntiau gwrthgyferbyniol sef eu bod eisoes yn cael y trafodaethau hyn a bod angen gadael i oedolion wneud eu penderfyniadau eu hunain. Roedd awdurdodau lleol yn mynegi amheuan ynglŷn â'r hyn sy'n gyfystyr â 'triniaeth weladwy', nid oeddent am i hyn gael ei gofnodi mewn amodau trwyddedu, roeddent am gael amser aros penodedig rhwng ymgynghori a rhoi triniaeth, a gwaharddiad ar apwyntiadau cerdded i mewn ar gyfer triniaethau o'r fath. Mynegwyd rhai y farn, o ran natur barhaol y driniaeth, nad yw'r un materion yn codi o ran tyllau ar yr wyneb ag sy'n codi o ran tatws ar yr wyneb.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd hwn yn gwestiwn arall a oedd wedi'i gynnwys oherwydd pryderon y Senedd yn ystod hynt y Ddeddf yn 2017, sef y gallai tyllau neu datws gweladwy effeithio ar gyflogaeth rhywun neu y byddent yn destun edifeirwch yn y dyfodol. 'Triniaethau gweladwy' yw'r rhai nad ydynt wedi'u gorchuddio â dillad yn gyffredinol, ar yr wyneb, y gwddf, neu'r dwylo fel arfer. Felly, roeddem yn ymrwymedig i ofyn y cwestiwn hwn ynghylch a oedd yn cael ei ystyried yn fater roedd angen ei drafod â chleientiaid.

Nodwn fod yr ymatebion wedi'u rhannu rhwng ymarferwyr sydd eisoes yn cael y sgysiau hyn â chleientiaid, a'r angen i drin pobl fel oedolion. Yn ein barn ni, mae trin cleientiaid fel oedolion yn cynnwys rhoi'r wybodaeth iddynt sy'n eu galluogi i wneud dewis gwybodus. Dylai hyn gynnwys unrhyw faterion posibl y gallai'r cleient ddod ar eu traws y tu hwnt i'r gofal yn union ar ôl y driniaeth, a'r tebygolrwydd o ddadwneud y driniaeth pe bai'n newid ei feddwl/meddwl yn y dyfodol. Ni dderbyniwn ei bod bob amser yn hawdd dadwneud tyllau ar yr wyneb gan fod posibilrwydd o greithio a marciau parhaol yn y man tyllu o hyd.

Ni theimlwn ei bod yn gymesur mandadu cyfnod aros penodedig rhwng ymgynghori a rhoi triniaeth, oherwydd y dylai hyn fod yn fater i ddeiliad y drwydded ei ystyried wrth ymgynghori â'r cleient. Gan fod cefnogaeth i'r cynnig ar y cyfan, bwriadwn fwrw ymlaen â'r cynnig fel y'i drafftwyd a chynnwys y mater hwn yn yr amodau trwyddedu a'r canllawiau anstatudol.

### **Cwestiwn 23: Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad a gynigir ar gyfer 'gwrthrych' fel y bo'n berthnasol i dyllu'r corff?**

#### **Trosolwg**

Atebodd 181 y cwestiwn, ac ni wnaeth 69 ei ateb. Atebodd 142 'ydw' a rhoddodd 14 ohonynt ymateb hirach; atebodd 26 'nac ydw' a rhoddodd 25 ohonynt ymateb hirach; darparodd 13 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

#### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cytunodd y mwyafrif â'r diffiniad, ond nid oedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn dod o sector tyllu'r corff. Ymddangosai fod cryn dipyn o amheuaeth ynghylch a oedd y diffiniad yn ddigon penodol, ac roedd nifer o'r ymatebwyr am gael diffiniadau a rhestrau o'r gwahanol fathau o wrthrychau a fyddai'n cael eu caniatáu neu eu gwahardd. Nododd nifer o'r ymatebwyr nad oedd 'gemwaith' wedi cael ei ddiffinio yn y Ddeddf, felly roeddent yn cwestiynu beth fyddai gwrthrych 'nad yw'n emwaith' yn y cyd-destun hwn.

Roedd cadwyni manwerthu am wahaniaethu rhwng tyllu 'cosmetig' (h.y. y clustennau a'r ffroenau a wneir â gwn neu getrisen dyllu) a phob math arall o dyllu'r corff. Gwnaeth nifer o'r ymatebwyr y pwynt y gallai'r diffiniad o 'llafn' effeithio ar rai o'r nodwyddau a ddefnyddir, a bod angen llafn i dynnu rhai gwrthrychau, megis angorau croenol. Gwnaed yr awgrym y byddai unrhyw glwyf sy'n gofyn am bwythau yn ddiffiniad gwell.

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Ni allwn greu categori arall o 'tyllu cosmetig' am fod pob math o dyllu yn gosmetig (h.y. anfeddygol i addurno'r corff neu fel enghraifft o hunanfyneiant). Mae'r diffiniad o 'tyllu'r corff' yn y Ddeddf yn cynnwys y clustennau a'r ffroenau. Ni dderbyniwn y

ddadl ymhlyg bod tyllu'r clustennau a'r ffroenau yn llai mewnwthiol nag unrhyw fath arall o dyllu'r corff, na'r ddadl bod yr offeryn a ddefnyddir yn peri llai o risg o haint.

Nodwn y pryderon ynglŷn â diffiniadau a phryder awdurdodau lleol ynglŷn â rhestrau o wrthrychau a waherddir neu a ganiateir, ac nad yw gemwaith wedi'i ddiffinio yn y Ddeddf. Mae'r diffiniad yn llac yn fwriadol er mwyn caniatáu rhyddid mynegiant i'r diwydiant tyllu'r corff ac mae diffiniad penodol, i bob diben, yn nodi sut y gellir osgoi'r gofyniad.

Rydym yn ymwybodol o'r ymatebion a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad ar reoliadau ynglŷn â thyllu rhannau personol o'r corff ac o ymgysylltu â sector tyllu'r corff ac awdurdodau lleol nad oes unrhyw gonsensws ynglŷn â therminoleg ar gyfer gemwaith na gwrthrychau a ddefnyddir at ddibenion tyllu'r corff, a gall y rhain newid dros amser. Byddai unrhyw ymgais i ddiffinio a rhestru gwrthrychau yn ôl deunydd, maint neu siâp yn mynd yn anghyfredol yn gyflym iawn, gan greu mwy o ansicrwydd na'r sicrwydd y byddai rhestr yn ei roi. Pe bai rhestrau o wrthrychau a ganiateir/a waherddir yn cael eu cynnwys byddai hynny'n golygu mai dim ond drwy'r broses ddeddfwriaethol ffurfiol y gellid eu diweddarau, ac y gallai sefyllfa godi lle mae'r rheoliadau yn cael eu diwygio drwy'r amser. Yn ein barn ni, byddai'n well ymdrin â dehongliadau mewn canllawiau anstatudol sydd, yn ôl eu natur, yn fwy hyblyg o ran diwygiadau.

Nodwn y pwyntiau a wnaed gan dyllwyr y corff ynglŷn â'r defnydd o lafnau ac offerynnau llafnog i fewnosod neu dynnu gwrthrychau o'r croen. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i ddichonoldeb cynnwys y term 'pwythau' yn y camau lliniaru a geir yn yr amodau trwyddedu penodol i ymarferwyr tyllu'r corff pan mai bwriad cyffredinol y ddeddfwriaeth hon yw atal cyfleoedd i achosi heintiau drwy driniaethau arbennig.

Felly, byddwn yn bwrw ymlaen â'r diffiniad o 'gwrthrych' fel 'unrhyw wrthrych nad yw'n emwaith' fel y'i cynigiwyd yn wreiddiol, er mwyn bod yn gyson â'r diffiniad a ddefnyddiwyd yn y rheoliadau ynglŷn â thyllu rhannu personol o'r corff.

**Cwestiwn 24: Ydych chi'n cytuno bod gwahardd y defnydd o gyllell llawfeddyg neu offeryn llafnog tebyg yn amodau trwyddedu tyllu'r corff yn ddigonol i atal addasiadau i'r corff sydd y tu hwnt i driniaeth tyllu'r corff?**

### **Trosolwg**

Atebodd 186 y cwestiwn, ac ni wnaeth 64 ei ateb. Atebodd 124 'ydw' a rhoddodd 8 ohonynt ymateb hirach; atebodd 9 'nac ydw' a rhoddodd 6 ohonynt ymateb hirach. Darparodd 53 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cymysg fu'r ymatebion a gwnaed sylwadau a oedd yn gwrthddweud ei gilydd. Awgrymodd ymatebion gan rai awdurdodau lleol a thyllwyr y corff fod llawer o'r nodwyddau arbenigol a ddefnyddir i dyllu'r corff yn lafnau yn dechnegol a bod angen

offerynnau llafnog i dynnu rhai gwrthrychau fel angorau croenol yn ddiogel. Awgrymodd rhai tyllwyr y corff fod gwaharddiad ar bwythau yn rheolaeth well.

Roedd rhai yn cwestiynu beth oedd Llywodraeth Cymru yn ceisio ei gyflawni drwy'r cwestiwn hwn, gan wahaniaethu rhwng ymarfer tyllu'r corff ac addasiad i'r corff. Mynegwyd rhai amheumon a fyddai modd gwahardd addasiad i'r corff drwy amodau mandadol yn hytrach na deddfwriaeth bwrpasol.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn nodi'r dadleuon yn erbyn y cynnig hwn ac yn cydnabod bod gwaharddiad ar addasiadau i'r corff y tu hwnt i'r hyn y gellir yn rhesymol ei gyflawni drwy amodau mandadol. Cafodd y cwestiwn hwn ei gynnwys i geisio barn ynghylch a allai tyllu'r corff gael ei gamddefnyddio i wneud addasiadau mwy eithafol i'r corff. Derbyniwn y bydd marchnad o hyd ar gyfer triniaethau o'r fath, ond ni dderbyniwn, drwy roi rhyddid mynegiant i bobl, y dylent gael eu hamlygu i risg gynyddol o niwed i'r corff. Nodwn y pwyntiau a wnaed ynglŷn â'r defnydd dilys o nodwyddau arbenigol a byddwn yn ystyried y rhesymeg dros gyfeirio at y term pwytho yn yr amodau trwyddedu a pha mor ddilys ydyw.

Byddwn yn ystyried ymatebion i'r cwestiwn hwn wrth ddrafftio'r amodau trwyddedu penodol mewn perthynas â thyllu'r corff ond ni fwriadwn wneud unrhyw reoliadau penodol mewn perthynas ag addasiadau eithafol i'r corff.

**Cwestiwn 25: Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf cymeradwyo a gynigir ar gyfer ceisiadau cymeradwyo mangre/cerbyd a'r dogfennau ategol a restrir? A ddylai ymgeiswyr orfod cyflwyno unrhyw ddogfennau eraill?**

## **Trosolwg**

Atebodd 205 y cwestiwn, ac ni wnaeth 45 ei ateb. Atebodd 156 'ydw' a rhoddodd 7 ohonynt ymateb hirach; atebodd 5 'nac ydw' a rhoddodd pob un ohonynt ymateb hirach; darparodd 44 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

## **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn gan bob sector. Nodwyd nifer o faterion ynglŷn â manylion y cynnig, yn bennaf pwy fyddai'r 'person cyfrifol' mewn nifer o fodelau rheoli busnes gwahanol neu os mai tenant yw'r ymgeisydd ac nad yw'n gyfrifol am gynllun na gosodiadau mangre. Mynegwyd rhai amheumon ynghylch pam y byddai angen i'r person cyfrifol lwyddo yn y cwrs atal a rheoli heintiau a chyflwyno gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pe na bai'n ymarferydd. Gwnaeth awdurdodau lleol sylwadau ar rai o'r termau a ddefnyddiwyd, a holodd ymarferwyr ynglŷn â'r gofyniad i gyflwyno cynllun ar raddfa o'r fangre. Rhoddwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer y dogfennau y dylai'r ymgeisydd eu darparu.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nodwn yr ymholiadau ynglŷn â phwy fyddai'r 'person cyfrifol' mewn gwahanol senarios, a phwy ddylai wneud y cais. Caiff y rhain eu diffinio yn y rheoliadau drafft a'u cwmpasu'n fanylach yn y canllawiau anstatudol.

Bydd angen i'r person cyfrifol sy'n gwneud y cais fod wedi llwyddo yn y cwrs atal a rheoli heintiau am mai'r person hwnnw fydd yn gyfrifol am y fangre a'r gweithrediadau sy'n digwydd yno. Felly, bydd angen iddynt feddu ar yr un ddealltwriaeth o atal a rheoli heintiau â'r ymarferwyr sy'n gweithio yn y fangre.

Nodwn y sylwadau ynglŷn â therminoleg a byddwn yn ymdrin â hyn mewn unrhyw ddeunyddiau cynllun a ddarparwn. Nodwn hefyd y materion a godwyd ynglŷn ag yswiriant, ond nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ddylanwad ar gwmnïau yswiriant masnachol na'r hyn y maent yn ei gynnwys yn eu polisïau. Fodd bynnag, byddwn yn mynd ati'n fwy rhagweithiol i ymgysylltu â'r sector hwn i ddeall y broses yswirio yn well a sicrhau bod y cynllun yn gyson â gofynion yswiriant.

Nodwn hefyd yr awgrymiadau ar gyfer dogfennau y gallai ymgeiswyr eu darparu, ond nid oedd pob un ohonynt yn gymesur â'r dasg o ystyried cais neu atal a rheoli heintiau. Byddem yn cwestiynu pam mae angen cynnwys llun o'r fangre ar y dystysgrif gymeradwyo. Mae'r fangre yn gysylltiedig â chyfeiriad sefydlog a gallai ei ffasgia newid yn sylweddol yn ystod oes y dystysgrif gymeradwyo heb unrhyw effaith ar ei dilysrwydd ac mae'n annhebygol y caiff unrhyw ffotograff o'r fath ei ddefnyddio at ddibenion adnabod. Mae'n bosibl y bydd defnydd ar gyfer ffotograff pan fo'r 'fangre' yn gerbyd heb rif cofrestru, megis carafán.

Roedd y gofyniad i ddarparu cynllun ar raddfa wedi'i gynnwys am y byddai'n ei gwneud yn bosibl cyfrifo'r pellter rhwng gweithfannau a chyfarpar hanfodol megis sinciau. Rydym wedi ystyried yr ymatebion ar y mater hwn a byddwn yn drafftio'r rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu 'cynllun' a'r wybodaeth, megis mesuriadau ystafell, lleoliadau cyfleusterau a gweithfannau.

Rydym hefyd wedi myfyrio ar ein cynnig i'w gwneud yn ofynnol i dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael ei chyflwyno ar y cyd â cheisiadau ar gyfer mangreoedd ac ar ôl cael cyngor cyfreithiol, rydym wedi dod i'r casgliad na ddylid bwrw ymlaen â'r gofyniad hwn, a hynny am fod yn rhaid i'r cais ymwneud â'r fangre yn ôl y gyfraith, yn hytrach na'r person sy'n gyfrifol amdani. Felly, byddai cael dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn amherthnasol os na fyddai'r person cyfrifol yn cyflawni unrhyw rai o'r triniaethau.

Byddwn yn ystyried yr awgrymiadau eraill a wnaed yn yr ymatebion wrth ddrafftio'r rheoliadau a'r canllawiau anstatudol mewn perthynas â'r meini prawf ar gyfer ceisiadau i gymeradwyo mangreoedd a cherbydau.

## **Cwestiwn 26: Ydych chi'n cytuno na ddylai deiliaid trwyddedau triniaeth arbennig hyfforddai gael gwneud cais am dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd yn eu hawl ei hunain, na chael eu henwebu fel y sawl sy'n gyfrifol am fangre ar ffurflen gais?**

### **Trosolwg**

Atebodd 206 y cwestiwn, ac ni wnaeth 44 ei ateb. Atebodd 191 'ydw' a rhoddodd 46 ohonynt ymateb hirach; atebodd 7 'nac ydw' a rhoddodd 2 ohonynt ymateb hirach; darparodd 8 ymatebion manwl ond heb roi ymateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cafwyd cytundeb cyffredinol â'r cynnig a chydnabyddiaeth bod angen profiad er mwyn bod yn gyfrifol am fangre ac ymarfeyr eraill o bosibl. Cododd awdurdodau lleol faterion ynglŷn ag ymarfeyr a oedd yn unig fasnachwyr a oedd hefyd yn hyfforddeion. Roedd rhai aciwbigrwyr o'r farn y gall hyn effeithio ar eu cyfundrefn hyfforddiant bresennol, lle mae myfyrwyr yn eu blwyddyn olaf yn mynd i leoliad profiad gwaith. Codwyd rhai cwestiynau ynglŷn â'r diffiniadau o 'goruchwyliaeth' a 'cymwys', a mynegwyd rhywfaint o bryder ynglŷn ag ymarferydd sydd wedi cael profiad o un driniaeth ac wedi cael ei drwyddedu i'w rhoi yn cael hyfforddiant ar driniaeth arall ac a fyddai hynny'n gyfystyr â dod yn 'hyfforddai' ac annilysu trwydded ymarferydd neu dystysgrif cymeradwyo mangre sy'n bodoli eisoes.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Y rhesymeg dros y cwestiwn oedd a oedd yn rhesymol atal rhywun sy'n dal i gael ei oruchwylio, neu rywun heb brofiad nac arbenigedd mewn unrhyw un o'r pedair triniaeth rhag sefydlu busnes yn ei fangre ei hun, ac a oedd hyn yn peri risg bosibl i gleientiaid, na fyddent yn ymwybodol o'i ddiffyg profiad. Roeddem wedi tybio wrth lunio'r cwestiwn bod yr 'hyfforddai' dan sylw yn debygol o fod yn ifanc iawn ac yn ddibrofiad. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r ymatebion a gafwyd gan bob sector ac ymgysylltu dilynol gennym ei bod yn debygol y bydd rhai unigolion mewn busnesau sefydledig yn penderfynu dod yn hyfforddeion tra byddant yn dal i reoli eu busnes. Gall hyn fod yn arfer yn y sector harddwch yn enwedig.

Derbyniwn hefyd na fydd rhai sy'n gwneud cais am gymeradwyaeth mangre yn ymarfeyr eu hunain ond y byddant yn cyflogi ymarfeyr trwyddedig neu'n rhentu lle iddynt. Hefyd, efallai y bydd rhai ymarfeyr sydd wedi'u trwyddedu ar gyfer un o'r triniaethau arbennig yn hyfforddi i roi un arall o'r triniaethau arbennig. Byddem yn dadlau na allai'r personau hyn gael eu hystyried yn hyfforddeion, felly na fyddai unrhyw waharddiad yn berthnasol iddynt, ond sylweddolwn y gall y farn hon fod yn orsyml.

Rydym wedi trafod yr hyn sy'n gyfystyr â hyfforddai yn yr adran berthnasol o'r ddogfen ymgynghori ac yn ein hymateb i gwestiwn 15. Nodwn y pryderon ynglŷn â myfyrwyr aciwbigo yn eu blwyddyn olaf sy'n mynd i leoliad profiad gwaith. Fodd bynnag, ni chredwn fod hyn yn achosi problem benodol, gan fod myfyrwyr mewn

lleoliad profiad gwaith ac sy'n dal i gael eu goruchwyllo yn annhebygol o sefydlu eu mangre eu hunain nes eu bod wedi cymhwyso. Unwaith y byddant wedi cymhwyso, maent yn peidio â bod yn hyfforddeion.

Ar ôl myfyrio ar yr ymatebion yng nghyd-destun y ffordd y mae pobl yn rheoli eu busnesau ac o ystyried y risgiau o niwed i iechyd pobl a chymesuredd, bwriadwn dynnu'r gofyniad hwn yn ôl.

## **Cwestiwn 27: Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ynghylch apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod cais am gymeradwyaeth mangre a cherbyd, fel y nodir ym mharagraff 11.19?**

### **Trosolwg**

Atebodd 203 y cwestiwn, ac ni wnaeth 47 ei ateb. Atebodd 160 'ydw' a rhoddodd 12 ohonynt ymateb hirach; atebodd 3 'nac ydw' a rhoddodd 2 ohonynt ymateb hirach; darparodd 40 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cafwyd cytundeb cyffredinol â'n cynnig, ond mae'n debyg bod nifer o gamsyniadau wedi cael eu mynegi gan ymatebwyr. Roedd awdurdodau lleol wedi rhagdybio y byddai apelïadau yn erbyn penderfyniad i wrthod cymeradwyo mangreoedd a cherbydau yn cael eu gwrandio gan y pwyllgor trwyddedu, gyda rhai'n nodi nad ydynt yn defnyddio model trwyddedu yn eu hawdurdod lleol. Cwestiynodd nifer o'r ymatebwyr pam roedd llysoedd ynadon yn cael eu defnyddio i wrando'r apelïadau hyn, yn seiliedig ar y gost a fyddai ynghlwm wrth hynny.

Mae'n debyg bod ymarferwyr wedi rhagdybio na fyddent yn cael eu hysbysu am y rhesymau pam y byddai cais yn cael ei wrthod na chael amser i wneud y newidiadau angenrheidiol. Roedd rhai awdurdodau lleol yn pryderu am y costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan ystyried eu bod yn tanamcangyfrif y gwaith y byddai'n rhaid iddynt ei wneud, ond ni roddwyd unrhyw fanylion na chostau penodol yn eu hymatebion.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r Ddeddf wedi'i hysgrifennu fel y bydd apelïadau yn erbyn penderfyniad i wrthod ceisiadau ar gyfer mangreoedd a cherbydau yn cael eu traddodi ar unwaith i'r llysoedd ynadon, oni bai bod y rheoliadau yn gwneud trefniadau eraill. Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd ar gam olaf hynt y Ddeddf drwy'r Senedd, mae'n debyg mai'r rhagdybiaeth oedd mai ychydig iawn o apelïadau a fyddai'n cael eu cyflwyno, felly yr ystyrid ei bod yn rhesymol defnyddio'r llysoedd ynadon. Felly mae'r cwestiwn hwn yn profi'r cysyniad hwn, ac a oes angen trefniadau gwahanol.

Nodwn y sylwadau ynglŷn â chost defnyddio'r llysoedd ynadon, a bod yr awdurdodau lleol yn enwedig o'r farn y dylid defnyddio'r un broses ag a ddefnyddir ar gyfer apelïadau yn erbyn penderfyniad i wrthod cais am dystysgrif ymarferydd.

Nid ydym yn siŵr pam mae ymarferwyr yn credu na fyddant yn cael eu hysbysu am y rhesymau dros wrthod cais, nac unrhyw gyngor ynglŷn ag unrhyw welliannau y dylid eu gwneud cyn y gellir derbyn y cais. Bydd arolygiad o'r fangre yn rhan o'r broses o benderfynu ar unrhyw gais, ac ni fyddai'n fuddiol i neb pe bai awdurdod lleol yn peidio â rhoi adborth o'r fath na thrafod â'r ymgeisydd unrhyw waith ychwanegol y mae angen iddo/iddi ei wneud er mwyn sicrhau bod y cais yn cael ei gymeradwyo.

Nid yw'n bosibl defnyddio'r pwyllgor trwyddedu yn uniongyrchol i wrando ceisiadau ar gyfer mangre yn ôl y gyfraith. Fodd bynnag, mae'n bosibl gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau cymaradwy ar gyfer adolygiad mewnol lle y bwriedir gwrthod ceisiadau am gymeradwyaeth mangre neu gerbyd.

Felly, bwriadwn wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu grwpiau adolygu mewnol i ystyried unrhyw geisiadau am gymeradwyaeth mangre/gerbyd y maent yn bwriadu eu gwrthod ac i ddilyn y broses ar gyfer gwrandao apeliadau yn erbyn penderfyniad i wrthod ceisiadau ymarferwyr mor agos â phosibl. Felly, os bydd awdurdod lleol o'r farn na all gymeradwyo cais ar ôl ystyried y ddogfennaeth ac ymweld â'r fangre, bydd yn hysbysu'r ymgeisydd o'i fwriad i wrthod y cais, gan nodi'r rhesymau pam a'i hawliau i gyflwyno sylwadau i'r grŵp adolygu mewnol. Pe bai cais yn cael ei wrthod ar ôl yr adolygiad hwn, yna byddai gan yr ymgeisydd yr hawl i apelio ymhellach yn y llys ynadon, ac yn llys y goron yn y pen draw.

Caiff y rheoliadau drafft hyn eu cynnwys yn yr ymgynghoriad nesaf.

## **Cwestiwn 28: Ydych chi'n cytuno y dylai'r dystysgrif cymeradwyo hefyd gynnwys enw'r sawl sy'n gyfrifol ac uchafswm y gweithfannau yn y fangre honno/gerbyd hwnnw?**

### **Trosolwg**

Atebodd 210 y cwestiwn, ac ni wnaeth 40 ei ateb. Atebodd 194 'ydw' a rhoddodd 49 ohonynt ymateb hirach; atebodd 3 'nac ydw' a rhoddodd 2 ohonynt ymateb hirach; darparodd 13 ymatebion manwl heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cafwyd cryn gefnogaeth i'r cynnig hwn, ond cododd llawer o'r ymatebwyr faterion tebyg i'r hyn a godwyd ar gyfer cwestiynau eraill mewn perthynas â diffiniadau o'r 'person cyfrifol' a materion sy'n ymwneud â cheisiadau ymarferwyr yn hytrach na cheisiadau ar gyfer mangreoedd. Roedd awdurdodau lleol yn gwahaniaethu rhwng uchafswm a nifer a ganiateir. Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am ganllawiau ynglŷn â sut y byddai uchafswm y gweithfannau yn cael ei bennu, beth mae'n ofynnol i berson cyfrifol ei wneud, a phwy ddylai fod yn berson cyfrifol a enwir. Holodd rhai a fyddai uchafsymiau gwahanol yn gymwys ar gyfer digwyddiadau dros dro.



## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nodwn y materion a godwyd ynglŷn â phennu uchafswm y gweithfannau a phwy ddylai gael ei enwi'n berson cyfrifol mewn senarios gwahanol. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau anstatudol ar y materion hyn maes o law.

Nodwn bryderon yr awdurdodau lleol ond nid ydym yn siŵr beth yw'r gwahaniaeth rhwng uchafswm y gweithfannau a nifer y gweithfannau a ganiateir oherwydd, yn ein barn ni, yr un peth ydynt, yn seiliedig ar y lle sydd ar gael yn y fangre. Mae uchafswm y gweithfannau yn adlewyrchu nifer yr ymarferwyr trwyddedig a allai weithio yn y fangre honno ar unrhyw adeg benodol.

Rydym yn ymwybodol, mewn rhai mangreoedd cymeradwy, y bydd mwy o ymarferwyr trwyddedig yn gysylltiedig â'r fangre na nifer y gweithfannau, oherwydd patrymau gweithio rhan amser a gweithio'n symudol. Mae gosod terfyn ar nifer y gweithfannau yn ymdrin â hyn a'r risgiau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo heintiau.

Felly bwriadwn fwrw ymlaen â'r cynnig hwn.

## **Cwestiwn 29: Oes gennych chi unrhyw sylwadau am yr amodau mandadol enghreifftiol ar gyfer cymeradwyo mangreoedd/cerbydau a nodir yn Atodiad Ch2?**

### **Trosolwg**

Atebodd 79 y cwestiwn a rhoi sylwadau ac ni wnaeth 171 ei ateb.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Ymddangosai fod llai o gonsensws ar y cwestiwn hwn, a gwnaeth llawer ddewis peidio â'i ateb, neu ddweud nad oes ganddynt unrhyw sylwadau i'w gwneud. Pan wnaed sylwadau ar amodau cymeradwyo, roeddent yn canolbwyntio ar fanylion ymarferol megis darparu cyfleusterau toiledau, paredwydd mewnol a'r gofynion ar gyfer cerbydau. Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am gysondeb o ran disgrifiadau a gofynion.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nodwn y materion a godwyd mewn perthynas â manylion ymarferol yr amodau, a'r awgrymiadau a wnaed i'w gwella. Nodwn hefyd yr angen am derminoleg gyson.

Byddwn yn defnyddio'r awgrymiadau a roddwyd yn yr ymatebion manwl hyn i lywio trafodaethau pellach ag awdurdodau lleol ac ymarferwyr, a llywio'r fersiwn derfynol o'r amodau mandadol a'r canllawiau anstatudol i ymarferwyr ac awdurdodau lleol.

**Cwestiwn 30: Cynigiwn ein bod yn gwneud rheoliadau o dan adran 70 o'r Ddeddf yn gysylltiedig â'r broses amrywio ac adnewyddu ar gyfer tystysgrifau cymeradwyo mangreoedd i'w gwneud yn gyson â'r broses amrywio ac adnewyddu ar gyfer trwyddedau triniaeth arbennig. Ydych chi'n cytuno?**

### **Trosolwg**

Atebodd 198 y cwestiwn, ond ni wnaeth 52 ei ateb. Atebodd 182 'ydw' a rhoddodd 13 ohonynt ymateb hirach; atebodd 2 'nac ydw' a rhoddodd 1 ymateb hirach; darparodd 14 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y dylai'r prosesau fod yr un fath â thrwyddedau i ymarferwyr. Roedd rhai awdurdodau lleol o'r farn y dylai fod cylchoedd adnewyddu gwahanol ar gyfer mangreoedd aciwbigo ac electrolysis. Nid oedd rhai o'r ymatebwyr yn siŵr pam y byddai angen adnewyddu cymeradwyaethau mangreoedd a pham y byddai angen eu hamrywio, yn enwedig mewn perthynas â newid perchennog neu reolwr mangre.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nodwn fod y mwyafrif a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig. Nid oes modd amrywio'r cylch adnewyddu ar gyfer triniaethau penodol, am fod y Ddeddf wedi pennu cyfnod cymeradwyo o dair blynedd ar gyfer pob un o'r pedair triniaeth arbennig.

Mae angen i gymeradwyaethau mangreoedd/cerbydau gael eu hadnewyddu er mwyn sicrhau bod y safonau a gymeradwywyd ar adeg y cais yn cael eu cynnal. Byddwn yn ymdrin â'r materion ynglŷn â dehongli ac o dan ba amgylchiadau y dylid gwneud ceisiadau amrywio yn y rheoliadau ac yn rhoi esboniad pellach yn y canllawiau anstatudol i ymarferwyr ac awdurdodau lleol.

Byddwn yn bwrw ati i wneud y rheoliadau fel y'u cynigiwyd er mwyn sicrhau bod y broses o amrywio ac adnewyddu cymeradwyaethau mangreoedd/cerbydau yn unol â'r rhai ar gyfer trwyddedau ymarferwyr.

**Cwestiwn 31: A ddylid gosod yr un amodau cymeradwyo mandadol wrth gymeradwyo mangreoedd a cherbydau dros dro â'r amodau a osodir ar gyfer pob mangre/cerbyd? Os ddim, pa amodau cymeradwyo mandadol penodol (os o gwbl) a ddylai fod yn berthnasol wrth gymeradwyo mangreoedd a cherbydau dros dro?**

### **Trosolwg**

Atebodd 201 y cwestiwn, ac ni wnaeth 49 ei ateb. Atebodd 183 'dylid', a rhoddodd 37 ohonynt ymateb hirach; atebodd 3 'na ddylid', a rhoddodd pob un ymateb hirach; darparodd 15 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

## **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y dylid gosod yr un amodau cymeradwyo wrth gymeradwyo digwyddiadau dros dro â'r amodau a osodir wrth gymeradwyo mangreoedd/cerbydau bob tair blynedd, gan yr ystyrir bod y risg i iechyd yr un fath. Fodd bynnag, gwnaeth nifer o'r ymatebwyr sylwadau ar rai o'r manylion, gan amau a fyddai ymarferwyr sy'n ymweld yn gallu cydymffurfio â'r gofynion ac ystyried y byddai angen rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer rhai o'r amodau. Roedd awdurdodau lleol o'r farn bod y terfyn amser arfaethedig ar gyfer cyflwyno cais dros dro yn rhy hir, gan awgrymu 28 diwrnod yn lle hynny.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nodwn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn a bod cytundeb cyffredinol y dylid gosod yr un amodau cymeradwyo ag a ddefnyddir wrth gymeradwyo mangreoedd parhaol. Rydym wedi nodi'r sylwadau a wnaed ar fanylion y cynnig ac wedi dod i'r casgliad bod rheoli digwyddiad yn wahanol iawn i reoli mangre barhaol a all effeithio ar faint ac amllder y risgiau, er bod y risg i iechyd yr un fath. Rydym o'r farn y gall fod yn gymesur bod rhai o'r amodau yn cael eu hamrywio er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa unigryw hon, er enghraifft, y gofyniad i ddarparu offerynnau a chynhyrchion untro/wedi'u sterileiddio ymlaen llaw. Byddwn yn diwygio'r terfyn amser i 28 diwrnod, a thrafodir hyn ymhellach yn ein hymateb i gwestiwn 33.

Felly, bwriadwn ddiwygio'r cynnig er mwyn darparu amodau cymeradwyo ar wahân ar gyfer tystysgrifau cymeradwyo mangreoedd/cerbydau dros dro ond hefyd fynnu'r un safon o reoli heintiau a diogelwch cleientiaid ag a fydd yn amodau cymeradwyo mangreoedd/cerbydau bob tair blynedd.

## **Cwestiwn 32: Ydych chi'n cytuno bod mynnu'r un meini prawf trwyddedu ar gyfer trwydded ymarferydd dros dro ag ar gyfer trwydded tair blynedd yn gymesur?**

### **Trosolwg**

Atebodd 212 y cwestiwn, ac ni wnaeth 38 ei ateb. Atebodd 188 'ydw' a rhoddodd 46 ohonynt ymateb hirach; atebodd 9 ohonynt 'nac ydw' a rhoddodd 3 ohonynt ymateb hirach; darparodd 15 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

## **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Er bod cytundeb cyffredinol ynglŷn â'r cynnig, codwyd nifer o bwyntiau ynglŷn â sut y byddai trwydded ymarferydd dros dro yn gweithredu'n ymarferol ac roedd llawer o'r ymarferwyr o'r farn bod y gofynion yn anghymesur â'r risg. Codwyd nifer o gwestiynau, yn enwedig a fyddai hyfforddeion yn gallu gwneud cais am drwyddedau dros dro, ac a fyddai penderfyniad i wrthod cais yn cael ei atgyfeirio at y pwyllgor trwyddedu. Roedd rhai awdurdodau lleol yn amau a fyddai modd cyflawni'r gofynion

yn y terfynau amser arfaethedig. Codwyd cwestiwn ynghylch a allai'r saith diwrnod a ganiateir gael eu defnyddio saith gwaith ledled Cymru.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nodwn y gefnogaeth i'r cynnig hwn, ond hefyd yr anghysondebau rhwng yr ymatebion a roddwyd i'r cwestiwn hwn a'r rhai a roddwyd i'r cwestiwn blaenorol, lle yr awgrymwyd y dylai'r gofynion fod yr un fath ac y dylai'r terfyn amser fod yn fyrrach. Yn ein barn ni, mae'n bosibl bod dadl dros fynnu meini prawf gwahanol er mwyn ymdrin â natur dros dro y cais ond hefyd sicrhau'r un lefel o reolaeth ar yr un pryd.

Nid ydym yn siŵr beth yw ystyr y cwestiwn ynghylch a allai trwydded dros dro ymarferydd gael ei defnyddio saith gwaith ledled Cymru. Nid ydym yn siŵr a yw hyn yn golygu y dylai'r saith diwrnod fod yn olynol neu a ellid gadael bylchau rhyngddynt dros wythnosau neu fisoedd. Diben y trwyddedau dros dro hyn yw rhoi trwydded dros dro i ymarferydd sy'n ymweld ar gyfer digwyddiad penodol neu gynllun penodol o ymweliadau y mae ymarferydd yn bwriadu eu cynnal, nad yw'r naill na'r llall yn para am fwy na saith diwrnod. Felly, byddem yn disgwyl y byddai'r cais yn cael ei wneud ar gyfer cyfnod o amser a lleoliad penodedig neu fwy nag un lleoliad o bosibl. Fodd bynnag, byddai'n rhaid darparu'r daith i'w hystyried fel rhan o'r broses drwyddedu. Ni fwriedir i drwydded dros dro gael ei defnyddio ar gyfer ymweliadau hirdymor nac ymweliadau rheolaidd am y byddai trwydded am dair blynedd yn fwy priodol at y diben hwn. Byddwn yn rhoi canllawiau ynglŷn â sut y dylid penderfynu ar y trwyddedau ymarferydd dros dro hyn a sut y dylent gael eu defnyddio maes o law.

Byddwn yn adolygu pa mor gymesur yw'r meini prawf ar gyfer trwydded dros dro yng ngoleuni'r ymatebion a gafwyd.

## **Cwestiwn 33: Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n gymesur i drefnydd digwyddiadau sy'n gwneud cais am dystysgrif cymeradwyo mangre dros dro fodloni'r un meini prawf cymeradwyo ag ar gyfer tystysgrif cymeradwyo mangre tair blynedd?**

### **Trosolwg**

Atebodd 206 y cwestiwn, ac ni wnaeth 44 ei ateb. Atebodd 177 'ydw' a rhoddodd 41 ohonynt ymateb hirach; atebodd 10 'nac ydw' a rhoddodd 5 ohonynt ymateb hirach; darparodd 19 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, ond nododd rhai y dylai fod gofynion amrywiadwy, am na fyddai llawer o fangreodded dros dro yn gallu bodloni'r un meini prawf â mangre sefydlog. Awgrymodd rhai na fyddai trefnydd digwyddiad yn ymarferydd o bosibl, ac felly bod y gofynion yn ormodol ac nad ydynt yn berthnasol o reidrwydd. Fodd bynnag, cafwyd cytundeb cyffredinol y dylai pob ymarferydd yn y digwyddiad fod wedi'i drwyddedu, ac mai trefnydd y digwyddiad ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau hyn. Gwelodd rhai ddiffyg cyswllt rhwng y terfyn

amser o 58 diwrnod i drefnydd digwyddiad gyflwyno holl fanylion yr ymarferwyr a'r terfyn amser o 28 diwrnod i ymarferwyr, felly ni fyddai modd i'r trefnydd warantu bod pob ymarferydd wedi'i drwyddedu ar adeg gwneud cais ar gyfer y fangre.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Y rhesymeg dros y cynnig hwn oedd lleihau'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â phrosesu ceisiadau dros dro o'r fath, a sicrhau cysondeb â'r ffordd y mae confensiynau yn gweithredu, pan mai trefnydd y digwyddiad sy'n gyfrifol am weithredu a rheoli digwyddiad.

Nodwn fod y mwyafrif wedi cytuno â'r cynnig ond bod yr ymatebion a roddwyd ynglŷn â gofynion amrywiadwy ar gyfer mangre yn mynd yn groes i'r ymatebion a roddwyd o dan gwestiynau ynglŷn â'r angen i fynnu bod ceisiadau i gymeradwyo mangre dros dro yn bodloni'r un meini prawf â'r rhai ar gyfer mangre sefydlog. Nodwn hefyd y broblem gyda therfyn amser y cais.

Yn ein hymateb i gwestiwn 31, rydym wedi nodi y byddwn yn drafftio amodau penodol i gymeradwyo mangreoedd dros dro ar gyfer digwyddiadau. Rydym yn dal yn ymrwymedig i fynnu bod trefnwyr digwyddiadau yn bodloni'r un meini prawf cymeradwyo â thystysgrif cymeradwyo mangre am dair blynedd. Byddwn hefyd yn diwygio'r terfyn amser gwreiddiol o 58 diwrnod i 28 diwrnod yn unol â'r broses ymgeisio ar gyfer mangre dros dro.

**Cwestiwn 34: Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn rhaid i bob mangre/cerbyd sy'n gysylltiedig â digwyddiad/arddangosfa dros dro gael ei chymeradwyo/gymeradwyo gan yr awdurdod lleol? Os ddim, pam ddim?**

## **Trosolwg**

Atebodd 204 y cwestiwn, ac ni wnaeth 46 ei ateb. Atebodd 191 'ydw' a rhoddodd 49 ohonynt ymateb hirach; atebodd 3 'nac ydw' a rhoddodd pob un ohonynt ymateb hirach; darparodd 10 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

## **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn, a'r brif thema oedd y dylai'r safonau gael eu cymhwysu'n gyson at bob math o gais ar gyfer mangre/cerbyd. Mynegodd awdurdodau lleol bryder ynglŷn â'u gallu i archwilio cerbydau cyn y digwyddiad, gan na fyddant yng Nghymru tan y digwyddiad ei hun o bosibl. Mynegodd rhai ymarferwyr bryder y byddai'r gofynion ar gyfer ceisiadau dros dro yn golygu na fyddai digwyddiadau dros dro yn bosibl mwyach. Gwelodd rai ddiffyg cyswllt rhwng y terfynau amser sef bod trefnydd y digwyddiad yn gorfod gwneud cais 58 diwrnod ymlaen llaw, ond bod ymarferwyr yn cael 28 diwrnod, a all achosi problemau i drefnwyr digwyddiadau, y mae'n rhaid iddynt ddilysu bod gan bob ymarferydd drwydded ar adeg gwneud cais.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn cydnabod y gefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn, yn enwedig o ran cefnogi safonau cyson o dan yr holl amgylchiadau lle y gellir rhoi'r triniaethau hyn. Rydym yn deall pryder awdurdodau lleol o ran cerbydau, ond mae digwyddiadau dros dro ar hyn o bryd yn denu cerbydau y mae'n rhaid iddynt gael eu harchwilio gan swyddogion awdurdodau lleol, megis trelars bwyd symudol mewn digwyddiadau awyr agored. Yn ein barn ni, dylai cyfundrefn archwilio debyg i'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd fod yn gymwys i ddiwyddiadau dros dro sy'n cynnwys triniaethau arbennig. Nodwn fater y cyfnodau amser gwahanol ac rydym wedi ymateb o dan gwestiwn 33.

Rydym yn cadarnhau y byddwn yn drafftio rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i bob digwyddiad dros dro gael ei gymeradwyo gan yr awdurdod lleol perthnasol.

### **Cwestiwn 35: A ddylid gosod amodau cymeradwyo mandadol ar gyfer pob mangre/cerbyd sy'n gysylltiedig â digwyddiadau/arddangosfeydd dros dro?**

#### **Trosolwg**

Atebodd 200 y cwestiwn, ac ni wnaeth 50 ei ateb. Atebodd 191 'dylid', a rhoddodd 35 ohonynt ymateb hirach; atebodd 2 'na ddylid', a rhoddodd 1 ohonynt ymateb hirach; darparodd 7 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

#### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn codi themâu tebyg i'r rhai ar gyfer y cwestiwn blaenorol, a chafwyd cefnogaeth unfrydol bron i'r cynnig. Ar y cyfan, roedd ymatebwyr o'r farn y dylai'r un safonau rheolaeth fod yn gymwys i fangreoedd a cherbydau a oedd yn gysylltiedig â digwyddiadau dros dro, ond roedd awdurdodau lleol o'r farn y dylai amodau gwahanol fod yn gymwys, yn dibynnu ar y lleoliad a'r sefydliad a oedd yn gwneud y cais ond y dylid mynnu safonau cyson.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nodwn y gefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn a'r sylwadau a wnaed ynglŷn â phwysigrwydd safonau cyson yn ogystal â'r awgrymiadau y dylai amodau fod yn amrywiadwy yn unol ag amgylchiadau pob cais, a chyfeiriwn at ein hymateb i gwestiwn 31. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i fangreoedd a cherbydau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau dros dro fod yn ddarostyngedig i amodau cymeradwyo mandadol, gan ddarparu amodau cymeradwyo ar wahân ar gyfer y math hwn o gais yn unig, gyda'r ddealltwriaeth y caiff yr un safon o reoli heintiau a diogelwch cleientiaid ei sicrhau.

**Cwestiwn 36: Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys gwybodaeth bellach o fewn tystysgrif cymeradwyo dros dro (fel yr awgrymwyd ym mharagraff 13.12)? Pa wybodaeth arall a ddylai fod yn ofynnol (os o gwbl)?**

### **Trosolwg**

Atebodd 103 y cwestiwn, ac ni wnaeth 147 ei ateb. Atebodd 56 'ydw' a rhoddodd 11 ohonynt ymateb hirach; atebodd 28 'nac ydw'; darparodd 19 ymatebion manwl heb roi ateb pendant.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Atebodd nifer o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno ond ni roddwyd unrhyw wybodaeth bellach. Pan roddwyd awgrymiadau, roeddent yn cynnwys enwau ymarferwyr; cymwysterau ymarferwyr; enw trefnydd y digwyddiad; uchafswm y gweithfannau a ganiateir yn y digwyddiad, a dyddiad dechrau a gorffen y digwyddiad. Awgrymodd un awdurdod lleol y dylid cynnwys gwaharddiad ar hyrwyddiadau/cynigion anghyfrifol i'r rhai sy'n dod i'r digwyddiad. Codwyd ymholiad ynglŷn â cheisiadau munud olaf gan ymarferwyr sydd eisoes wedi'u trwyddedu.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nodwn yr ymatebion cadarnhaol, ac yn niffyg unrhyw wybodaeth bellach, rydym wedi cymryd bod y rhain yn golygu cytundeb cyffredinol â'r cynigion. Byddwn yn ystyried yr awgrymiadau a roddwyd, ond ni chredwn y bydd yn ymarferol rhestru'r holl wybodaeth ar y dystysgrif. Byddwn yn ystyried yr holl awgrymiadau o safbwynt ymarferoldeb a chymesuredd a defnyddio'r rhain i lywio'r fersiynau terfynol o'r dystysgrif dros dro a'r ddogfennaeth gysylltiedig. Byddwn yn ymdrin â'r cwestiynau a godwyd gan awdurdodau lleol ac eraill ynglŷn â rheoli'r broses o gymeradwyo cerbydau dros dro a'u harchwilio yn y canllawiau anstatudol.

Nid ydym yn siŵr beth mae 'hyrwyddiadau anghyfrifol' yn ei olygu ac felly rydym wedi cysylltu â'r awdurdod lleol a gododd y mater hwn er mwyn cael rhagor o wybodaeth.

Ein bwriad lle bynnag y bo modd yw mabwysiadu dull gweithredu sy'n debyg i fformat tystysgrif cymeradwyo mangre am dair blynedd er mwyn sicrhau cysondeb y cynllun.

**Cwestiwn 37: Ydych chi'n cytuno y dylid pennu'r ffioedd ymgeisio am drwydded yn y modd a amlinellir ym mharagraffau 15.3 ac 15.4?**

### **Trosolwg**

Atebodd 209 y cwestiwn, ac ni wnaeth 41 ei ateb. Atebodd 159 'ydw' a rhoddodd 103 ohonynt ymateb hirach; atebodd 7 'nac ydw' a rhoddodd 6 ohonynt ymateb hirach; darparodd 43 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

## **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Er bod y mwyafrif yn cytuno â'r cynnig, roedd rhai aciwbigwyr yn gwrthwynebu cael eu cynnwys yn y cynllun, a nododd rhai awdurdodau lleol eu bod yn dymuno pennu eu ffioedd eu hunain, ni waeth beth roedd awdurdodau lleol eraill yn ei wneud. Fodd bynnag, prif thema'r rhan fwyaf o'r ymatebion oedd y dylai'r ffioedd a'r ffurflenni gwneud cais fod yr un fath ledled Cymru, y dylai'r ffioedd arfaethedig gael eu cyhoeddi mor fuan â phosibl, ac y dylai fod eglurder ynglŷn â beth y defnyddir y ffioedd ar ei gyfer.

Nid oedd rhai yn deall y cynigion na pham y byddai angen talu pedair ffi mewn rhai achosion os oedd yr ymgeisydd am gael trwydded ymarferydd triniaeth arbennig a thystysgrif cymeradwyo mangre ar yr un pryd. Mae'n debyg bod diffyg dealltwriaeth yn gyffredinol ynglŷn â sut mae'r cynllun cofrestru presennol yn wahanol i'r cynllun trwyddedu a gynigir, a phwy sy'n gyfrifol am bennu'r ffioedd.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nodwn y sylwadau y dylai'r ffioedd a'r deunyddiau ymgeisio fod yr un fath ledled Cymru, a dyna'n bwriad erioed. Felly, mae'n achos pryder inni fod rhai awdurdodau lleol wedi awgrymu y byddant yn arfer eu pŵer i bennu ffioedd gwahanol, a fydd yn tanseilio'r cysyniad o gynllun i Gymru gyfan. Ar ôl cael cyngor cyfreithiol, bwriadwn gynnwys gofyniad yn y rheoliadau drafft bod yn rhaid i'r 22 o awdurdodau lleol i gyd gytuno ar un set o ffioedd i fod yn gymwys ledled Cymru.

Nodwn y pryderon y byddai'n rhaid i rai ymgeiswyr dalu pedair ffi. Er y gall Llywodraeth Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â sut mae awdurdodau lleol yn pennu ffioedd, ni allwn fandadu beth fydd y ffioedd, na sut y bydd awdurdodau lleol yn codi ffi. Am y rheswm a esboniwyd yn y ddogfen ymgynghori, nid yw'n bosibl yn ôl y gyfraith i un ffi gael ei phennu ar gyfer y cais a chyfraniad at weithrediad y cynllun, am fod y Goruchaf Lys wedi dyfarnu bod y ddau at ddibenion gwahanol ac nad oes modd eu cyfuno.

Rydym yn parhau i weithio gyda phaneli arbenigol yr awdurdodau lleol perthnasol mewn perthynas â ffioedd y cynllun ac rydym wedi trafod y pryderon a godwyd mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Hoffem pe bai awdurdodau lleol mewn sefyllfa i gyhoeddi'r rhestr o ffioedd yn y dyfodol agos.

## **Cwestiwn 38: Ydych chi'n cytuno y dylid pennu'r ffioedd ymgeisio am gymeradwyaeth mangre/cerbyd yn y modd a amlinellir ym mharagraffau 15.5 ac 15.6?**

### **Trosolwg**

Atebodd 204 y cwestiwn, ac ni wnaeth 46 ei ateb. Atebodd 167 'ydw' a rhoddodd 11 ohonynt ymateb hirach; atebodd 6 'nac ydw' a rhoddodd 4 ohonynt ymateb hirach; darparodd 31 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.



## **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Roedd y mwyafrif yn cytuno â'r cynnig hwn ac yn codi materion tebyg i'r hyn a godwyd ar gyfer cwestiwn 37. Mae'n ymddangos bod llawer yn meddwl mai Llywodraeth Cymru fydd yn pennu'r ffioedd. Mae'n ymddangos nad oedd awdurdodau lleol yn siŵr a fyddai'n ofynnol iddynt gynnal arolygiadau o fangre oedd fel rhan o'r broses ymgeisio. Unwaith eto, dywedodd yr ymatebwyr y dylai'r ffioedd fod yr un fath i Gymru gyfan, ac ymddangosai fod pryder cyffredinol ynglŷn â beth fyddai'r ffioedd yn cael eu defnyddio ar ei gyfer ac y bydd awdurdodau lleol yn gweithredu cynllun gwneud elw. Cafwyd rhai safbwyntiau anghyson gan awdurdodau lleol yn yr ystyr eu bod am weld ffioedd i Gymru gyfan ond hefyd gael pennu eu ffioedd eu hunain.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nodwn y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion hyn a byddwn yn nodi ein hymateb i'r cwestiwn diwethaf unwaith eto mewn perthynas â ffioedd i Gymru gyfan a phwy sydd â'r pŵer i bennu a chodi ffioedd. Hoffem wadu'r awgrym mai ymarfer gwneud elw yw'r cynllun. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cael unrhyw ffioedd o dan y cynllun a gwaherddir awdurdodau lleol yn ôl y gyfraith rhag gwneud elw o ffioedd cynlluniau trwyddedu – dim ond ffi sy'n rhesymol i dalu eu costau y caniateir iddynt ei chodi. Felly, y ffi ymgeisio fydd cost prosesu'r cais, cynnal arolygiad, a chyhoeddi unrhyw ddogfennaeth. Yr ail ffi yw cyfraniad rhesymol at gostau rhedeg y cynllun trwyddedu, sy'n cynnwys cyngori deiliaid tystysgrifau, ymdrin â chwynion, cynnal arolygiadau ychwanegol a rhoi cymorth parhaus.

Nid ydym yn siŵr pam mae awdurdodau lleol wedi drysu ynghylch a fydd yn rhaid iddynt gynnal arolygiad o fangre fel rhan o'r broses ymgeisio. Y bwriad gennym o'r cychwyn oedd y bydd ymweliadau ag ymgeiswyr yn cael eu cynnal, ar gyfer trwyddedau ymarferwyr triniaeth arbennig a thystysgrifau cymeradwyo mangre oedd, gan y byddai'n anodd, yn ein barn ni, wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth heb arolygiad. Am y rheswm hwnnw, mae ymweliadau arolygu wedi'u cynnwys yn y costau i awdurdodau lleol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Byddwn yn bwrw ati i wneud rheoliadau mewn perthynas â sut y caiff ffioedd eu pennu, a fydd yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gytuno ar y ffioedd, fel y nodir yn ein hymateb i gwestiwn 37.

**Cwestiwn 39: Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheoliadau gynnwys darpariaeth ynghylch sut y dylai awdurdodau lleol bennu swm y ffi a godir ar ddeiliad trwydded neu gymeradwyaeth mangre/cerbyd o dan adran 76 yn y modd a amlinellir ym mharagraffau 15.7-15.9?**

## **Trosolwg**

Atebodd 205 y cwestiwn, ac ni wnaeth 45 ei ateb. Atebodd 167 'ydw' a rhoddodd 14 ohonynt ymateb hirach; atebodd 13 'nac ydw' a rhoddodd 8 ohonynt ymateb hirach; darparodd 25 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

## **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Cafwyd cytundeb cyffredinol â'r cynnig, a chynigiwyd safbwyntiau tebyg i'r hyn a gynigiwyd ar gyfer y cwestiynau eraill ynglŷn â ffioedd. Mae'n ymddangos nad oedd awdurdodau lleol yn deall goblygiadau dyfarniad y Goruchaf Lys ar ffioedd trwyddedu awdurdodau lleol a gofynnwyd am i un ffi gael ei chodi ymlaen llaw ar y cyd â'r ffurflen gais. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn pryderu ynglŷn â'r effaith ariannol bosibl ar fusnesau bach a fydd yn gorfod talu pedair ffi wahanol o bosibl os byddant yn gwneud cais am drwydded ymarferydd a thystysgrif cymeradwyo mangre ar yr un pryd.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn nodi'r ymatebion a roddwyd ac yn cyfeirio at ein hymatebion i'r cwestiynau blaenorol ynglŷn â ffioedd. Mae'n achos pryder inni nad yw awdurdodau lleol yn deall goblygiadau dyfarniad y Goruchaf Lys ynglŷn â sut maent yn codi ffioedd. Nid oes modd cyfuno'r ffi'r ymgeisio a'r cyfraniad at gostau rhedeg cynllun trwyddedu.

Hefyd, o dan delerau'r Ddeddf, os penderfynir bod cais yn dderbyniol ac y dylid dyroddi trwydded ymarferydd triniaeth arbennig neu dystysgrif cymeradwyo mangre, ni all yr awdurdod lleol beidio â'i rhoi nes bod ffi'r cyfraniad at y cynllun yn cael ei dalu, am fod y ffi ymgeisio yn talu costau prosesu'r ffurflenni, gwneud y penderfyniad ac anfon dogfennaeth (h.y. naill ai drwy ddyroddi'r dystysgrif neu anfon y ddogfennaeth sy'n rhoi hysbysiad gwrthod.

Nodwn y pwyntiau a wnaed ynglŷn ag effaith ffioedd ar fusnesau bach ac, ar y cyd ag awdurdodau lleol, rydym yn ystyried sut y gallwn helpu busnesau baratoi ar gyfer y cynllun trwyddedu hwn, gan gynnwys cyfres o weminarau am ddim i ymarferwyr, y byddwn yn eu hysbysebu i randdeiliaid drwy ein rhwydweithiau. Fodd bynnag, yn y pen draw, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am bennu cost ffioedd, ac nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bŵer cyfreithiol i ddylanwadu ar y gost hon. Fodd bynnag, bydd y rheoliadau yn nodi'n glir pa elfennau y gellir codi tâl amdanynt fel rhan o ffi Adran 76.

## **Cwestiwn 40: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig ynghylch adennill ffioedd adran 76 nas talwyd yn y modd a amlinellir ym mharagraff 15.10?**

### **Trosolwg**

Atebodd 197 y cwestiwn hwn, ond ni wnaeth 53 ei ateb. Atebodd 172 'ydw' a rhoddodd 6 ohonynt ymateb hirach; atebodd 10 'nac ydw' a rhoddodd 6 ohonynt ymateb hirach; darparodd 15 ymatebion manwl ond heb roi ateb pendant.

## **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Nid atebwyd y cwestiwn hwn gan nifer mawr o'r ymatebwyr, ond pan gafodd ei ateb, roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig. Fel yn achos y cwestiwn blaenorol, gofynnodd

nifer o awdurdodau lleol am i'r holl ffioedd gael eu cyfuno a'u talu ymlaen llaw ar yr un pryd ag y cyflwynir y ffurflen gais. Mynegodd rhai ymarferwyr bryderon na fyddai eu cais yn cael ei brosesu pe na bai'r ail ffi yn cael ei thalu. Gofynnodd rhai awdurdodau lleol a ellid dirymu trwydded neu dystysgrif gymeradwyo pe bai'r ymgeisydd yn methu â thalu ail ffi'r cynllun.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Byddem yn nodi ein hymatebion blaenorol i'r cwestiynau ynglŷn â ffioedd unwaith eto. Ni fydd yn bosibl i awdurdod lleol beidio â phrosesu cais os na thelir yr ail ffi oherwydd dim ond ar y rhai sydd wedi cael trwydded/tystysgrif y bydd ffi'r cynllun yn cael ei chodi. Byddwn yn ystyried a yw'r Ddeddf yn rhoi pwerau i ddirymu trwydded neu dystysgrif os na thelir yr ail ffi a hefyd a fydd awdurdod lleol yn gallu gwrthod cais i adnewyddu os yw ffi'r cynllun ar gyfer y tair blynedd flaenorol heb ei thalu o hyd.

Felly, rydym yn cadarnhau y byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig, yn amodol ar yr ystyriaethau a amlinellir uchod. Gallwn gadarnhau y bydd y rheoliadau drafft yn galluogi awdurdodau lleol i adennill ffioedd heb eu talu drwy ddyled sifil.

**Cwestiwn 41: Hoffem wybod eich barn ynghylch yr effaith y gallai'r cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg.**

**Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?**

## **Trosolwg**

Atebodd 53 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn a rhoi sylwadau.

## **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Nid atebwyd y cwestiwn hwn gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, ac o blith y rhai a roddodd ateb, roedd rhai o'r farn nad oedd y cwestiwn yn berthnasol i'r cynllun trwyddedu, neu na fyddai unrhyw effaith ar y Gymraeg. Roedd rhai ymatebwyr wedi dehongli'r cwestiwn fel un a oedd yn golygu y byddai'n ofynnol darparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Lle y rhoddwyd ymateb ffafriol, roedd yr ymatebwyr ar y cyfan yn meddwl y bydd dogfennau cyhoeddus dwyieithog megis y dystysgrif yn codi proffil yr iaith, ac roeddent yn croesawu'r ffaith y byddai'r cwrs atal a rheoli heintiau ar gael yn Gymraeg. Ni wnaed unrhyw sylwadau yn awgrymu unrhyw effaith andwyol ar y Gymraeg.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Dyma'r cwestiwn cyntaf o ddau gwestiwn ar y Gymraeg sy'n cael eu cynnwys ym mhob un o ymgynoriadau Llywodraeth Cymru. Nodwn y pryderon a fynegwyd gan rai fod y cwestiwn yn awgrymu y byddai'n ofynnol cynnig gwasanaethau yn Gymraeg ac y byddai unrhyw benderfyniad i gymeradwyo cais yn dibynnu ar hyn. Hoffem nodi nad felly y mae, ac mai penderfyniad pob ymarferydd neu fusnes yw p'un a all gynnig gwasanaethau yn Gymraeg ai peidio. Fodd bynnag, byddem yn annog pob busnes sy'n gallu gweithredu yn Gymraeg i roi gwybod i'w gwsmeriaid bod yr opsiwn hwn ar gael.

Mae awdurdodau lleol wedi cadarnhau y byddant yn darparu'r holl ddeunyddiau sy'n ymwneud â'r cynllun trwyddedu yn y ddwy iaith, fel y gwna Llywodraeth Cymru. Gallwn hefyd gadarnhau bod y cwrs ar atal a rheoli heintiau ar gael yn Gymraeg drwy rai canolfannau hyfforddiant cymeradwy.

Nodwn rai o'r sylwadau a wnaed ynglŷn â dysgu Cymraeg a hoffem dynnu sylw'r ymatebwyr at y cyrsiau Cymraeg sydd ar gael ledled Cymru ac ar-lein ar bum lefel wahanol, o ddechreuwr llwyr i ddysgwyr lefel uwch. Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael yma: [Croeso | Dysgu Cymraeg](#)

### **Cwestiwn 42: Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid trefnu neu newid y cynllun trwyddedu mandadol a gynigir ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru er mwyn sicrhau**

- **effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal**
- **unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

## Trosolwg

Atebodd 45 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn a rhoi sylwadau.

### **Themâu allweddol yn yr ymatebion**

Nid atebwyd y cwestiwn hwn gan nifer sylweddol o'r ymatebwyr. Lle y rhoddwyd ymatebion, roedd llawer o'r farn na fyddai unrhyw effaith sylweddol ar y Gymraeg, a chyfeiriodd rhai at y ddyletswydd statudol i ddarparu deunyddiau'r cynllun yn y ddwy iaith. Lle y gwnaed sylwadau, roedd ymatebwyr yn gefnogol ar y cyfan i'r defnydd o'r Gymraeg yn neunyddiau'r cynllun. Gofynnodd un ymatebydd a allai deunyddiau'r cynllun gael eu hysgrifennu mewn iaith gwaith yn y Gymraeg yn hytrach na chyfieithiad llythrennol.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Dyma'r ail gwestiwn o'r ddau gwestiwn ar y Gymraeg sy'n cael eu gofyn ym mhob un o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru. Mae'r awgrymiadau ynglŷn â deunyddiau dwyieithog a darparu'r cwrs ar atal a rheoli heintiau yn Gymraeg eisoes wedi cael eu rhoi ar waith neu bwriedir eu cyhoeddi yn y dyfodol.

Nodwn yr ymateb ynglŷn ag iaith gwaith – mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyfieithwyr a darllenwyr proflenni proffesiynol wrth baratoi dogfennau Gymraeg a Saesneg ochr yn ochr â'i gilydd. Maent yn fedrus o ran dewis cywair iaith sy'n gweddu i natur y ddogfen a'r gynulleidfa fwriadedig. Nid oes modd osgoi'r defnydd o eiriad cyfreithiol technegol mewn dogfennau weithiau (er enghraifft, geiriad deddfwriaeth, yn Gymraeg neu yn Saesneg). Fodd bynnag, gallwn ymgynghori â swyddogion awdurdodau lleol sy'n siarad Gymraeg er mwyn sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau Gymraeg y bydd Llywodraeth Cymru yn eu creu i awdurdodau lleol yn ddealladwy ac yn hygyrch i'r gynulleidfa fwriadedig.

### **Cwestiwn 43: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Defnyddiwch y gofod isod os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u trafod yn benodol.**

Mae pob un o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru yn cynnwys y cwestiwn cyffredinol hwn, lle y gwahoddir ymatebwyr i gyflwyno unrhyw sylwadau ynglŷn â'r ddogfen ymgynghori y maent wedi ei darllen. Pan ddaeth ymatebion i law mewn fformat megis e-bost neu lythyr, ac nad oeddent yn rhoi atebion uniongyrchol i gwestiynau penodol, ystyriwyd yr ymatebion hyn o dan y cwestiwn hwn.

### **Trosolwg**

Rhoddodd 174 atebion i'r cwestiwn hwn.

### **Themâu Allweddol**

Gan fod yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn eithaf amrywiol, mae'n anodd canfod themâu allweddol cyffredinol fel y cyfryw. Roedd rhai o'r sylwadau a gyflwynwyd yn cynnwys y sylwadau neu'r cwestiynau canlynol (ymhlith eraill):

- Bydd ymarferwyr rhan-amser a busnesau sy'n rhoi triniaeth arbennig yn achlysurol yn annhebygol o barhau i gynnig y driniaeth neu byddant yn gweithredu heb drwydded, ar sail y costau sy'n gysylltiedig â chael trwydded.
- Cafwyd pryderon ynglŷn â chost y drwydded a'r broses ymgeisio, gyda nifer o gwestiynau manwl yn cael eu gofyn. Gofynnodd rhai gwestiynau penodol ynglŷn ag ymgynghori â'r cleient a sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol.
- Ym marn awdurdodau lleol roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi tanamcangyfrif y gost iddynt a'r gwaith y byddai angen ei wneud yn fewnol i sefydlu a rhedeg y cynllun.

- Cyflwynodd llawer o'r aciwbigrwyr ymatebion eu cymdeithas broffesiynol benodol, gan bwysleisio na ddylai aciwbigo gael ei gynnwys yn y cynllun hwn.
- Cododd rhai pryderon nad oes cynllun tebyg yn rhannau eraill y DU, ac y byddai busnes yn cael ei golli i Loegr.
- Awgrymodd nifer o sefydliadau y dylid cynnwys triniaethau cosmetig eraill yn y cynllun hwn.
- Gofynnodd nifer o ymarferwyr ac awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru wahardd y defnydd o ynnau a chetris tyllu i dyllu'r clustiau a'r trwyn, gan amlinellu'r trawma y maent yn ei achosi i feinweoedd y croen a'r anhawster i sterileiddio'r cyfarpar yn ddigonol.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Hoffem ddiolch i'r holl ymatebwyr am gymryd yr amser i wneud sylwadau ar y cynigion o dan y cwestiwn hwn.

Rydym wedi nodi pryderon busnesau bach ynglŷn â chost ymgeisio a'r broses a gaiff ei dilyn. Rydym yn deall y pryder hwn yn absenoldeb y ffeithiau eu hunain ond gallwn hefyd weld o rai o'r ymatebion fod nifer o gamdybiaethau, a hynny'n seiliedig ar sïon, mae'n ymddangos. Sylweddolwn fod y broses ddeddfwriaethol hon yn ymddangos yn hirfaith, ond mae trefn briodol y mae'n rhaid inni ei dilyn ac ni allwn roi canllawiau na rhestrau o ffioedd hyd nes i ni wybod yn union pa bethau y byddwn yn eu cynnwys yn y rheoliadau a fydd yn sail i'r cynllun cyfan. Rydym yn cyfathrebu â rhanddeiliaid yn rheolaidd drwy gylchlythyr a chyfarfodydd a byddwn yn rhoi'r manylion cyn gynted ag y bo modd.

Nodwn y sylwadau a wnaed gan awdurdodau lleol ynglŷn â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac mae'n siomedig nad oeddent wedi rhoi unrhyw fanylion penodol o ran tanamcangyfrif gwaith a chostau, am fod yr ymgynghoriad yn gyfle i wneud unrhyw addasiadau o'r fath. Felly, rydym wedi gofyn i'r awdurdodau lleol hynny roi costau manwl i'w cynnwys yn y fersiwn derfynol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Mae cynlluniau trwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig mewn rhannau eraill o'r DU, ond cynlluniau rhanbarthol ydynt, ym mwrdeistrefi Llundain ac awdurdodau lleol yn yr Alban, ond nid yw'r cynllun yn yr Alban yn gynllun trwyddedu mandadol cenedlaethol. Ni allwn wneud sylwadau ar yr hyn y mae gwledydd eraill yn y DU yn deddfu yn ei gylch, am fod ganddynt eu blaenoriaethau eu hunain ac anghenion eu poblogaethau eu hunain i'w diwallu. Yn ein barn ni, mae aelodau o'r cyhoedd yn annhebygol o fynd dros y ffin at fusnesau yn Lloegr oherwydd y cynllun trwyddedu: byddem yn dadlau y bydd y cyhoedd am ddefnyddio ymarferwyr yng Nghymru oherwydd gellir dangos safonau hylendid.

Fel y'i trafodir mewn rhan arall o'r ddogfen hon, nid oes gennym y pŵer i wahardd y defnydd o ynnau tyllu yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, gallwn gyfyngu ar y rhai a all eu defnyddio. Am y rheswm hwn, nid ydym yn gwahaniaethu o gwbl ar gyfer y sector hwn, a bydd yn rhaid iddynt gydymffurfio â'r un gofynion trwyddedu â'r holl dyllwyr corff eraill.

Nodwn yr ymatebion a anfonwyd gan y gwahanol gymdeithasau aciwbigo, ac rydym wedi trafod y rhesymau pam mae aciwbigo wedi'i gynnwys yn y Ddeddf mewn rhan

arall o'r ddogfen hon. Ni allwn newid y penderfyniad i gynnwys aciwbigo yn y cynllun hwn am ei fod wedi cael ei bennu gan ofynion Deddf Lechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

Bydd y sylwadau ynghylch a ddylai triniaethau harddwch neu driniaethau cosmetig 'meddygol' penodol gael eu cynnwys yn y cynllun yn cael eu trafod rywbryd yn y dyfodol pan fyddwn yn ystyried cynnwys triniaethau arbennig ychwanegol o dan adran 93 o Ddeddf Lechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Byddwn yn cychwyn y pwerau i wneud rheoliadau pellach i'n galluogi i ddychwelyd at y mater hwn yn y dyfodol. Fodd bynnag, bwriadwn roi cyfle i awdurdodau lleol sefydlu a rhedeg y cynllun yn llawn ar gyfer y pedair triniaeth arbennig a enwir ar hyn o bryd cyn ein bod yn cynnig mwy o driniaethau.

## **Y camau nesaf ar ôl yr ymgynghoriad hwn**

Rydym wedi nodi'r newidiadau y bwriadwn eu gwneud i'n cynigion gwreiddiol o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn o dan ein hymateb i bob cwestiwn. Mae'r camau nesaf y byddwn yn eu cymryd fel a ganlyn:

- Byddwn yn cyflwyno'r canfyddiadau a nodir yn y ddogfen hon i'r Gweinidog Lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Byddwn yn trafod â'n cyfreithwyr y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn er mwyn llywio cynnwys y rheoliadau drafft y mae angen eu gwneud, yn amodol ar gymeradwyaeth gyffredinol y Gweinidog Lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Caiff y rheoliadau drafft eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad arall dros wyth wythnos, ynghyd â'r canllawiau statudol drafft ar benderfynu ar 'personau cymwys a phriodol'. Caiff y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad cyntaf hwn eu hysbysu pan fyddant yn cael eu cyhoeddi a'u gwahodd i ymateb.
- Ar ôl yr ail ymgynghoriad, caiff y rheoliadau eu llunio'n derfynol a byddwn yn dechrau proses ddeddfwriaethol ffurfiol y Senedd. Y dyddiad dod i rym arfaethedig yw Hydref 2024, ond noder y bydd y dyddiad hwn yn dibynnu ar ganlyniad yr ail ymgynghoriad a'r broses gwneud penderfyniadau yn y Senedd.
- Byddwn yn cyhoeddi canllawiau anstatudol i ymarferwyr ac awdurdodau lleol mor gynnar ag y gallwn o dan y gyfraith cyn dyddiad dod i rym arfaethedig y cynllun. Bydd y rhain yn cynnwys sut i wneud cais a'r ffioedd y mae awdurdodau lleol wedi cytuno arnynt i Gymru gyfan.

## **Atodiad 1 – Rhestr Dosbarthu'r Ymgynghoriad**

### **Sefydliadau Cynrychioliadol**

Cyngor Aciwbigo Prydain  
Cymdeithas Aciwbigo Meddygol Prydain  
Cymdeithas Aciwbigo Ffisiotherapyddion Siartredig  
Cymdeithas Ffisiotherapyddion Siartredig  
Ffederasiwn Cenedlaethol Gwallt a Harddwch  
Ffederasiwn Therapyddion Cyfannol  
Save Face  
Ffederasiwn Artistiaid Tatŵ Prydain  
Ffederasiwn Tatŵio  
Cydgyngor Ymarferwyr Cosmetig  
Cymdeithas Brydeinig Therapi Harddwch a Chosmetoleg  
Cyngor Harddwch Prydain  
Sefydliad a Chymdeithas Electrolysis Prydain  
Cymdeithas Tyllwyr Proffesiynol y DU - UKAPP  
Undeb y Diwydiant Tatŵio a Thyllu'r Corff  
Fforwm Busnes Preifat  
Consortiwm Manwerthu Cymru  
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol  
CGGC  
TUC Cymru  
CBI Cymru  
Ffederasiwn Busnesau Bach Prydain  
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

### **Swyddfeydd y Comisiynwyr**

Comisiynydd y Gymraeg  
Y Comisiynydd Plant  
Y Comisiynydd Gwybodaeth

### **Llywodraeth/Llywodraeth Leol**

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder  
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol yng Nghymru  
Rheoleiddio Llywodraeth Leol  
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

### **Iechyd**

Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr Meddygol a Chyfarwyddwyr Nyrsio:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg  
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf



Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda  
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe  
Ymddiriedolaeth GIG Felindre  
Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru  
Y Coleg Nyrsio Brenhinol  
Coleg Brenhinol y Ffisigwyr  
Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu  
Cynghorau Iechyd Cymuned

### **Iechyd y Cyhoedd**

Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd  
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd Byrddau Iechyd  
Cyfadran Iechyd y Cyhoedd  
Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd  
Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd  
Arweinwyr Iechyd yr Amgylchedd awdurdodau lleol  
Canolfannau Cyfunol Cymru ar gyfer Iechyd Cyhoeddus  
Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru  
Panel Arbenigol Cymru Gyfan ar Glefydau Trosglwyddadwy  
Panel Arbenigol Iechyd a Diogelwch Cymru Gyfan  
Panel Arbenigol Trwyddedu Cymru Gyfan  
Penaethiaid Safonau Masnach Cymru  
Y Sefydliad Safonau Masnach Siartredig  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
Iechyd yr Amgylchedd Cymru